

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol  
Social research

Rhif: 09/2010




Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Gwerthusiad o Effethiolrwydd Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol Sir Ddinbych

## Adroddiad Terfynol



# **Gwerthusiad o Effeithiolrwydd Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol Sir Ddinbych**

## **Adroddiad Terfynol**

### **Cwmni BMG Research**

### **Karen Kellard, Mary Costello a Philip Roe**

Barn yr ymchwilwyr ac nid o anghenraid o eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:

Dr Iorwerth Griffiths

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno, LL31 9RZ

Ffôn: 0300 062 5483

E-bost: [iorwerth.griffiths@wales.gsi.gov.uk](mailto:iorwerth.griffiths@wales.gsi.gov.uk)

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

© Hawlfraint y Goron



## Tabl Cynnwys

	Crynodeb Gweithredol	3
1.	Rhagarweiniad	14
2.	Strwythur, cylch gwaith a chyfrifoldebau'r Bwrdd	19
3.	Gweithrediad y Bwrdd	29
4.	Newidiadau yn Sir Ddinbych	33
5.	Effeithiau / dylanwadau	38
6.	Gwreiddio a chynnal newid	43
7.	Trosolwg – y Bwrdd fel ymyriad adferol	45
8.	Trosolwg a gwersi a ddysgwyd	52
	Dogfennau cyfeiriol	59
Atodiad A	Amserlen Gweithgareddau'r Bwrdd Adfer	62
Atodiad B	Cylch Gorchwyl y Bwrdd	69
Atodiad C	Aelodau'r Bwrdd	71

## **Rhestr Byrfoddau ac Acronymau**

Sir Ddinbych	Cyngor Sir Ddinbych;
APADGOS	Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Y Bwrdd (Adfer)	Y Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol
CA1	Cyfnod Allweddol 1
CA2	Cyfnod Allweddol 2
CA3	Cyfnod Allweddol 3
CA4	Cyfnod Allweddol 4
AALI	Yr Awdurdod Addysg Lleol
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## **Crynodeb Gweithredol**

### **Rhagarweiniad**

1. Ym mis Medi 2007, sefydlwyd Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yn Llywodraeth y Cynulliad i helpu Cyngor Sir Ddinbych i oresgyn diffygion yn ei system addysg.
2. Comisiynodd APADGOS gwmni ymchwil BMG Research i werthuso pa mor effeithiol oedd y Bwrdd hwn. Nod ffurfiol y gwerthusiad oedd: ystyried i ba raddau oedd y Bwrdd wedi bod yn effeithiol ac a oedd y Bwrdd wedi cyfrannu at wella'r Awdurdod Addysg Lleol (AALI); ac yn benodol i dynnu sylw at unrhyw enghreifftiau o ymarfer da a allai oleuo ymyriadau yn y dyfodol.
3. Roedd amcanion mwy manwl yr astudiaeth werthuso felly'n canolbwyntio ar ennill dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau'r model Bwrdd Adfer, ar adolygu sut oedd y Bwrdd yn cyflawni ei fusnes ac ar edrych ar argraffiadau'r prif randdeiliaid o waith y Bwrdd a'i effaith ar adferiad yr awdurdod.

### **Cefndir**

4. Roedd diffygion difrifol yn system addysg Cyngor Sir Ddinbych wedi cael eu canfod gan ddau adroddiad gan Estyn (yn 2006 a 2007) a chan adroddiad ymgynghorwyr a gomisiynwyd gan Awdurdod Addysg Lleol Sir Ddinbych ac a gyhoeddwyd ym mis Medi 2007. Roedd y diffygion hyn yn ymwneud ag arweinyddiaeth, ffocws a chynllunio anfoddfaol yn yr AALI a pherthynas wael rhwng yr AALI ac ysgolion yn Sir Ddinbych.
5. Ymatebodd y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Llywodraeth y Cynulliad drwy ddweud, ym mis Medi 2007, bod system addysg Cyngor Sir Ddinbych yn annerbyniol. Sefydlodd y Gweinidog Fwrdd Adfer Addysg Annibynnol ym mis

Tachwedd 2007 i fonitro ymdrechion Sir Ddinbych i wella'r gwasanaethau addysg yn y Sir fel eu bod o ansawdd derbyniol. Byddai gwaith y Bwrdd Adfer yn cydreded â chymorth allanol [gan Estyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)] ac ymdrechion mewnol yr AALI (gan gynnwys Bwrdd Moderneiddio Addysg mewnol yr Awdurdod ei hun).

6. Roedd Cylch Gorchwyl y Bwrdd yn cyfeirio sylw'r Bwrdd at broblemau addysg Sir Ddinbych, at y gwaith craffu oedd yn cael ei wneud gan yr AALI i oresgyn y problemau hynny, ac at fonitro faint o gynnydd a chyflymdra'r cynnydd hwnnw tuag at adfer oedd yn digwydd.
7. Cyfarfu'r Bwrdd yn fisol rhwng Ionawr a Mawrth 2008 ac yna, yn fras, pob deufis tan fis Mai 2010.
8. Yng nghyfarfodydd y Bwrdd Adfer, roedd y Bwrdd yn cael ei ddiweddarau ar y cynnydd gan uwch-reolwyr yn y Cyngor Sir ac yn trafod papurau polisi drafft a dogfennau eraill a dderbyniwyd gan yr Awdurdod. Roedd rhanddeiliaid allanol (gan gynnwys Estyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cynrychiolwyr o blith penaethiaid ysgolion, cynrychiolwyr o blith llywodraethwyr ysgolion, ac ystadegwyr o Lywodraeth y Cynulliad) yn bresennol i roi tystiolaeth ac i ateb cwestiynau.
9. Y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd, roedd aelodau'r Bwrdd yn mynychu cyfarfodydd eraill yn ymwneud â datblygu addysg yn Sir Ddinbych, gan gynnwys cyfarfodydd mewnol (fel rhai Bwrdd Moderneiddio Addysg yr Awdurdod) ac allanol yr Awdurdod (fel cyfarfodydd penaethiaid); a chafodd aelodau'r Bwrdd drafodaethau unigol gyda swyddogion o AALI Sir Ddinbych ar faterion penodol.

### **Strwythur, cylch gwaith, gweithredu a chyfrifoldebau'r Bwrdd**

10. Mae'r astudiaeth werthuso a gynhoir yma wedi gwneud defnydd o adolygiad o'r dogfennau perthnasol (fel cofnodion a phapurau a gyflwynwyd i'r Bwrdd dros gyfnod ei weithrediad) ac, yn anad dim, o farn

aelodau'r Bwrdd, ac uwch ffigyrau gwleidyddol a gweithredol yn yr AALI, a rhanddeiliaid eraill fel athrawon, llywodraethwyr ysgol, Estyn, CLILC, ac eraill.

11. Un o'r pethau cyntaf yr oedd yr astudiaeth am edrych arno oedd pa mor foddhaol oedd y Bwrdd ei hun a pha mor briodol oedd y dasg a roddwyd iddo i'w chyflawni.
12. Roedd cytundeb eang bod *cyfansoddiad y Bwrdd* yn gryfder allweddol. Roedd yn cynnwys unigolion uchel eu parch, gyda statws proffesiynol ac arbenigedd eang i 'adlewyrchu' amrywiol swyddogaethau'r AALI – nid oedd yr un maes pwysig o waith yr Awdurdod nad oedd gan y Bwrdd aelod a oedd yn arbenigo ac yn brofiadol ynddo.
13. Credir fod *Cylch Gorchwyl* y Bwrdd hefyd yn briodol ar y cyfan. Roedd dau beth yn amodi hyn. Teimlai rhai aelodau o'r Bwrdd fod y Cylch Gorchwyl yn rhy fras ond gyda chadeirio gofalus llwyddwyd i gadw'r ffocws angenrheidiol. Roedd peth pryder yn yr Awdurdod y gallai ymestyn y Cylch Gorchwyl i gwmpasu materion diogelu plant (a ddigwyddodd) efallai olygu bod y Bwrdd yn mentro i dir rhy eang, ond eto, llwyddodd y Bwrdd i reoli a chyfyngu hyn (i'r agweddau addysgol ar ddiogelu) mewn ymateb i bryderon yr Awdurdod.
14. Felly hefyd, derbyniwyd fod *blaenoriaethau'r Bwrdd* yn briodol ar y cyfan. Derbyniwyd bod y rhain yn seiliedig ar y Cylch Gorchwyl ond hefyd, wrth i'r amser fynd heibio, roedd gan y Bwrdd ddigon o hyblygrwydd i newid y *pwyslais* a roddwyd ar rai blaenoriaethau tra'n dal i graffu ar y materion a'r blaenoriaethau gwreiddiol.
15. O ran yr *ochr weithdrefnol*, roedd y Bwrdd yn rhedeg yn effeithiol er, fel y gellid ei ddisgwyl gydag unrhyw broses newydd (yn enwedig un yng nghyswllt materion taer a phwysig), cafwyd peth straen a phwysau yn enwedig ym misoedd cynnar y Bwrdd wrth ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r rolau a'r cyfrifoldebau a cheisio dirnad cymhlethdod y cyd-destun a'r amgylchiadau



16. Ar yr ochr gadarnhaol, y farn oedd bod y Bwrdd yn cyfarfod yn ddigon aml, a theimlwyd hefyd (gan y Bwrdd a'r Awdurdod) fod rolau ehangach aelodau'r Bwrdd mewn cyfarfodydd a thrafodaethau allanol wrth i'r amser fynd heibio yn werthfawr iawn. Teimlai'r Bwrdd fod y swyddogaeth ysgrifenyddol a gafodd ei chyflawni gan weision sifil APADGOS yn hanfodol ac yn cael ei pherfformio'n dda. Oherwydd arbenigedd a statws uchel aelodau'r Bwrdd, roedd y berthynas rhwng y Bwrdd a'r Awdurdod (mewn sefyllfa a allai fod wedi bod yn bur ofidus), a rhwng y Bwrdd a rhanddeiliaid allanol, yn un dda. Roedd pryderon cychwynnol ar ochr yr Awdurdod wedi cael eu tawelu a'r Bwrdd yn cael ei ystyried i fod yn broffesiynol, cadarnhaol a chefnogol. Roedd y ffaith bod y Bwrdd Adfer wedi gallu cyfeirio aelodau penodol at agweddau neilltuol o'r broses adfer i gyd-fynd â'u profiad a'u harbenigedd hefyd yn gryfder.
17. Yn anochel, roedd rhai materion yn codi ynghylch ochr weithredol a gweithdrefnol y Bwrdd. Roedd rhai o'r tu allan i'r Bwrdd yn credu y byddai *ysgrifenyddiaeth annibynnol* wedi bod yn beth da i bwysleisio annibyniaeth y Bwrdd, er nad oedd unrhyw awgrym na wnaeth ysgrifenyddiaeth APADGOS weithredu mewn ffordd a oedd bob amser yn hollol niwtral a phroffesiynol.
18. Roedd gan staff yr Awdurdod *lwyth gwaith trwm* o ran paratoi tystiolaeth ar gyfer y Bwrdd, yn enwedig o gofio nad oedd agenda'r Bwrdd a buddiannau penodol cyfarfodydd neilltuol yn hysbys ymlaen llaw. Fodd bynnag, derbyniwyd fod y galwadau hyn yn werthfawr i gymell ffocws a gwaith tîm yn yr Awdurdod ac i greu momentwm. Roedd aelodau'r Bwrdd, hefyd, wedi eu synnu i ddechrau gyda'r galwadau trwm ac annisgwyl ar eu hamser.
19. Nid oedd *Estyn*, fel corff annibynnol, wedi ei gynrychioli ar y Bwrdd Adfer ond roedd wedi mynychu cyfarfodydd i ddarparu gwybodaeth o'i ymweliadau monitro chwarterol â'r AALI a drefnwyd mewn ymateb i drafferthion Sir Ddinbych. Ystyriwyd y mewnbwn hwn i fod yn dra

phwysig i drafodaethau'r Bwrdd ac i'w asesiadau o'r cynnydd. Fodd bynnag, yn amodi hyn, lleisiwyd pryder gan rai a ymatebodd nad oedd 'briff gwyllo' cyffredinol y Bwrdd yn ddigon ar wahân i swyddogaeth arolygu statudol Estyn.

20. Roedd rhywfaint o anghydweld ynghylch dros ba *gyfnod* oedd y Bwrdd yn gweithredu. Roedd y Bwrdd i ddechrau yn disgwyl cael ei ddirwyn i ben ym mis Chwefror neu Fawrth 2009. Fodd bynnag, er bod cynnydd pur dda yn amlwg wedi'i wneud erbyn hynny, roedd y Gweinidog yn poeni ynghylch pa mor gynaliadwy oedd yr adferiad a gofynnodd i'r Bwrdd barhau am flwyddyn arall. Roedd yr Awdurdod yn ffyddiog *bod* yr adferiad wedi'i wreiddio erbyn hynny a bod craffu pellach gan y Bwrdd yn ddiangen.

### **Newid yn Sir Ddinbych ac effaith y Bwrdd**

21. Yn amlwg, dros y cyfnod yr oedd y Bwrdd yn weithredol, cafwyd newidiadau sylweddol iawn yn amgylchedd addysgol Sir Ddinbych. Roedd yna newidiadau staffio ar y lefelau gwleidyddol a gweithredol uchaf yn y Cyngor. Cafodd swyddi ychwanegol i bwrpas gwella ysgolion eu creu. Cafodd dîm rheoli'r Awdurdod ei ailstrwythuro. Sefydlwyd Bwrdd Moderneiddio Addysg mewnol (o fewn Cyngor Sir Ddinbych) ei sefydlu i sbarduno newid. Cafwyd llawer mwy o weithio ar y cyd, er enghraifft gyda Fforwm Llywodraethwyr, clystyrau ysgolion, a'r gwasanaethau addysg a chymdeithasol. Cafodd cyllid ychwanegol ei ddyrannu i ysgolion. Cafodd y gweithdrefnau derbyn mewn ysgolion eu cyd-gysylltu. Gwellodd y sefyllfa o ran hyfforddi staff yn yr AALI ac ar lefel arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion tra'n cymell defnydd gwell o wybodaeth reoli gan ysgolion.
22. Ar y cyfan, roedd newid mawr iawn yn y diwylliant addysg yn Sir Ddinbych gyda llawer mwy o bwyslais polisi cyhoeddus lleol ar addysg, mwy o gyd-gysylltu a chydweithio, a pherthynas well rhwng yr AALI ac ysgolion, a chyfathrebu gwell rhwng pawb.

23. O sefyllfa gychwynnol wael, cafwyd gwelliannau ym mherfformiad disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 1, 3 a 4, er hyd yma, mae gwelliannau yng Nghyfnod Allweddol 2 yn parhau i fod o dan y lefel ddisgwyliedig.
24. Ni ellir mesur faint gyfrannodd y Bwrdd at y newidiadau hyn. Y rheswm am hyn, wrth gwrs, yw nad oes unrhyw amgylchiadau gwrth-ffeithiol lle nad oedd Bwrdd Adfer yn ei le, fel y gellir cymharu. Hefyd, roedd nifer o ffactorau eraill - gan gynnwys newidiadau staffio a gwleidyddol y Sir ei hun, y Bwrdd Moderneiddio Addysg mewnol, Estyn, SAC, CLILC, ac ati – hefyd yn dylanwadu ar yr un pryd.
25. Yr hyn oedd yn cael ei gydnabod yn eang gan bawb a ymatebodd oedd bod presenoldeb y Bwrdd fel y mynegiant ar y ddaear o bryderon Gweinidogol yn rhoi ffocws ac impetws cryf i'r ffaith bod angen newid ac i'r broses newid ei hun, a bod pwysau parhaus y Bwrdd ar ffurf cyfarfodydd rheolaidd, y gofynion i adrodd yn ôl, craffu ar y cynllun gweithredu, ac ati, yn rhoi mwy fyth o fomentwm i'r adferiad. Dywedodd un aelod o'r Bwrdd bod y ffaith eu bod yno'n bresennol, yn holi, manylu, herio ac yn rhoi ffocws parhaus i Sir Ddinbych yn cael effaith.
26. Yn ogystal, honnwyd effeithiau mwy penodol hefyd, fel:
- roedd y Bwrdd yn annog Cytundeb Partneriaeth yr AALI i ganolbwyntio mwy ar gyfraniad yr ysgolion at wella;
  - cafodd perthynas well rhwng y gwasanaethau addysg a chymdeithasol ei chymell, yn enwedig pan benodwyd aelod ychwanegol gyda gwybodaeth arbenigol ar y Bwrdd;
  - roedd cydnabyddiaeth y Bwrdd o'r ffaith bod llywodraethwyr ac uwch-reolwyr mewn ysgolion wedi derbyn hyfforddiant anfodddhaol mewn arweinyddiaeth a rheolaeth wedi'i atgyfnerthu gan uwch-reolwyr newydd yn yr AALI ei hun; a
  - roedd y Bwrdd wedi cymell datblygu strwythurau a chyfathrebu gwell i wella'r berthynas hanesyddol wael rhwng yr AALI ac ysgolion.

27. Er bod yna wahaniaeth barn, fel y soniwyd uchod, ynghylch pryd ddylai ymyrraeth y Bwrdd ddod i ben a theimlad (gan rai o'r ymatebwyr) bod y diffyg strategaeth ymadael bendant ar gyfer y Bwrdd yn wendid, erbyn Mai 2010 penderfynodd y Gweinidog ddiddymu'r cyfarwyddyd bod Cyngor Sir Ddinbych yn cydweithredu gyda'r Bwrdd gan nodi nad oedd angen cynnal unrhyw gyfarfodydd pellach.

**Gwerth am arian, dulliau eraill o weithredu a throsglwyddo'r model:  
gwerthuso**

28. Cyfanswm y gost o redeg y Bwrdd dros ddwy flynedd oedd rhwng £80,000 a £100,000 (gan ddibynnu ar sut y cyfrifir y costau anuniongyrchol). Nid oes unrhyw feincnod ffurfiol ar gyfer y gost yma o ystyried nad oes corff cyffelyb i'r Bwrdd Adfer. Fodd bynnag, os derbynnir bod y Bwrdd wedi chwarae rôl sylweddol, er nid yr unig rôl o bell ffordd, yn adferiad Sir Ddinbych, yna gellir gweld yn syth bod hyn wedi rhoi gwerth da am arian. Tra'n nodi nad oes unrhyw amgylchiadau 'gwrth-ffeithiol', gallai'r gost o *beidio* â chael yr ymyriad, yn ariannol ac o ran y gost bosibl i addysg a chyfleoedd bywyd tymor hir y plant, fod wedi bod yn llawer mwy.

29. Roedd y cwestiwn cysylltiedig oni ellid fod wedi gallu mabwysiadu dulliau eraill o weithredu hefyd wedi'i godi mewn trafodaethau gyda'r ymatebwyr. Un dull arall fyddai gwneud dim a gadael i Sir Ddinbych ddatrys ei phroblemau ar ei phen ei hun. Ystyriwyd hyn fel opsiwn theoretig yn unig, gan adlewyrchu consensws cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr bod trafferthion Sir Ddinbych mor ddrwg fel bod angen ymateb gan lywodraeth ganolog.

30. Teimlwyd na fyddai dau opsiwn arall, sef penodi cwmni allanol o ymgynghorwyr rheoli neu gael AALI cyfagos i gymryd yr awenau, ychwaith wedi bod yn hyfyw na'n ddymunol. Ymhlith pethau eraill, cyfeiriwyd at gost, diffyg gwybodaeth leol, natur tymor byr ymyriadau o'r fath, a diffyg capasiti a rhwystrau sefydliadol (yn achos opsiwn yr AALI cyfagos) fel rhwystrau. Ar y cyfan teimlwyd bod y mathau yma o

ymyriadau, a oedd yn 'gwneud pethau i'r' system addysg yn lle ei hannog i godi'n ôl ar ei thraed ei hun, yn wannach a llai cynaliadwy na model y Bwrdd.

31. Fel a nodir uchod, i rai o'r chwaraewyr yn y broses adfer, roedd yna ddiffyg eglurder llwyr o ran y gwahaniaeth rhwng rôl y Bwrdd a rôl Estyn. Opsiwn arall fyddai pe bai Estyn wedi cyfrannu proses debyg i'r Bwrdd Adfer – bod Estyn fel pe bai'n gweithredu fel 'Bwrdd sefydlog' y gellid galw arno mewn amgylchiadau addysgol arbennig o anodd. Fodd bynnag, byddai angen newid go sylfaenol i gylch gwaith Estyn i wneud hyn ac yn sicr nid oedd Estyn wedi'i strwythuro i gyflawni rôl y Bwrdd Adfer yn achos Sir Ddinbych.
32. Yn olaf, gellid bod wedi sefydlu Bwrdd Adfer gyda *phwerau gweithredol*. Fodd bynnag, teimlwyd: (1) bod y model gwirioneddol gyda'i linell adrodd uniongyrchol i'r Gweinidog yn ddigon i fod wedi ysgogi ymyriad uniongyrchol cryfach pe bai angen gwneud hynny; (2) pe bai'r Bwrdd wedi cael y pŵer hwn, gallai hyn fod wedi cael effaith negyddol ar y berthynas rhwng y Bwrdd a'r Awdurdod; a (3) byddai wedi newid cymeriad yr ymyriad gwirioneddol yn *sylfaenol* - o fod yn un a oedd yn monitro gweithrediad yr AALI i fod yn un lle byddai'n asiant gweithredol ar gyfer gwelliannau, gan rannu yn y cyfrifoldeb dros sicrhau bod y gwelliannau'n digwydd neu beidio.
33. Ar y cyfan, felly, mae'n ymddangos bod yr ateb gorau, a'r un mwyaf cost-ffeithiol, yn achos Sir Ddinbych, oedd yr un a ddewiswyd.
34. Cyfyd cwestiwn pellach ynghylch a ellir trosglwyddo model y Bwrdd Adfer, o ystyried ei lwyddiant yn Sir Ddinbych. Mae'r model wedi'i ddefnyddio yn Lloegr ond ychydig iawn o dystiolaeth sydd o'i effaith yno. Nid oedd wedi'i ddefnyddio yng Nghymru o'r blaen. Felly, ychydig iawn o dystiolaeth sydd i ateb y cwestiwn hwn ar wahân i'r hyn a gynhrychir gan yr astudiaeth hon. Nid oes unrhyw reswm amlwg pam na ddylai fod yn effeithiol mewn rhannau eraill o Gymru ond mae'n ymddangos yn

debygol, i fod yn llwyddiannus, bod angen i'r model gydymffurfio â rhai amodau o ran ei gymhwysiad a chyd-destun. Trafodir y rhain isod.

### **Gwersi a ddysgwyd**

35. Mae effeithiolrwydd model y Bwrdd Adfer yn dibynnu ar nifer o nodweddion. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain 'yn eu lle' yn foddhaol yn achos Sir Ddinbych i sicrhau bod y Bwrdd yn effeithiol, ond mewn rhai achosion mae profiad Sir Ddinbych yn cynnig gwersi ar gyfer defnyddio model y Bwrdd yn y dyfodol. Dyma arferion da pwysig i'w nodi:

- bod y Bwrdd wedi'i gyfansoddi o *unigolion credadwy* uchel eu parch; a bod gan y Bwrdd amrywiaeth o arbenigedd i roi sylw i'r ystod o swyddogaethau a materion sy'n debygol o godi;
- bod y Bwrdd yn *annibynnol*;
- bod Aelodau'r Bwrdd yn cael eu rhybuddio ymlaen llaw o ran yr *ymrwymiad* tebygol y bydd ei angen. yn achos Sir Ddinbych, roedd rhai aelodau, yn enwedig ar y dechrau pan oedd pethau'n fwy dwys, yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r ymrwymiad amser oedd yn ofynnol;
- bod yna eglurder o ran *parhad*, a *strategaeth ymadael*, ar gyfer y Bwrdd. Gallai hyn fod braidd yn anodd. Yn achos Sir Ddinbych, roedd y Cyngor Sir ychydig yn bryderus bod cyfnod gweithredol gwreiddiol y Bwrdd wedi'i ymestyn. O ochr y Gweinidog, roedd angen i'r Bwrdd gario ymlaen hyd nes bo'r adferiad cynaliadwy yn sicr. Wrth reswm, ni ellid fod wedi diffinio hyn ymlaen llaw. Roedd y Cylch Gorchwyl yn cyfarwyddo'r Bwrdd i barhau hyd nes oedd Estyn yn ail-arolygu, wedi'i ddilyn gan benderfyniad Gweinidogol ynghylch a ddylai'r Bwrdd gario ymlaen neu beidio. Gallai'r Sir fod wedi cymryd hyn i olygu bod tystiolaeth o gynnydd sylweddol yn arwain at ddi-ddymu'r Bwrdd. Mewn achosion cymharol, gallai fod yn ddefnyddiol nodi'n glir yr hyn a ddigwyddodd yn Sir Ddinbych – bod angen dangos nid yn unig y gwelliannau'n unig, ond eu bod yn gynaliadwy, a bod hyn efallai'n gofyn am gyfnod craffu pellach;

- bod angen i rôl y *Bwrdd* fod yn gwbl glir. Yn achos Sir Ddinbych, *roedd* y Gweinidog yn glir mai rôl y *Bwrdd* oedd rhoi adborth ar y cynnydd a chyngor i'r Gweinidog. Byddai Estyn yn rhoi adborth o'r ymweliadau monitro, ond nid cyngor. Fodd bynnag, ar y ddaear, nid oedd rôl y *Bwrdd* a'i arwahanwydd i rôl Estyn, wedi cael ei deall yn llwyr. Yn amlwg, drwy ei bresenoldeb yn unig, *roedd* y *Bwrdd* yn sbardun ar gyfer newid ac yn rhoi impetws i'r broses adfer; ond mewn rhai achosion penodol (fel y rhai uchod), defnyddiodd y *Bwrdd* ei arbenigedd a'i brofiad i annog yr Awdurdod mewn ambell i gyfeiriad. Nid oedd y ffin rhwng monitro a chyfrannu at y broses adfer efallai wedi'i chynnal bob amser. Ac nid oedd yr holl chwaraewyr yn y broses adfer yn gwbl sicr bod rôl y *Bwrdd* a rôl Estyn yn amlwg wahanol neu ar wahân.
- bod yna Yn achos Sir Ddinbych, efallai fod eu hamrywio'n eithaf manteisiol er mwyn adlewyrchu materion newydd yn codi a newid blaenoriaethau;
- bod yna *gyfnod dwys o 'ddysgu buan'* fel bod y *Bwrdd* yn gwybod digon am yr amgylchedd a'r materion y bydd yn edrych arnynt. Yn achos Sir Ddinbych, *roedd* yn ymddangos bod y broses ymgylfarwyddo braidd yn ad hoc. Byddai cydnabod bod angen ymroi'n ddwys yn fuan yn y broses, fel rhan strwythurol o weithrediad y *Bwrdd*, yn werthfawr.
- felly hefyd, bod yna gydnabyddiaeth ffurfiol ar y dechrau bod gweithrediad llwyddiannus y *Bwrdd* yn annhebygol o gael ei gyfyngu i gyfarfodydd *Bwrdd* ffurfiol yn unig. Yn achos Sir Ddinbych, mae'r Cylch Gorchwyl yn cyfeirio'n benodol at natur y cyfarfodydd *Bwrdd*. Fel y digwyddodd, cefnogwyd y cyfarfodydd hyn gan amrediad o gyfarfodydd a thrafodaethau eraill, sy'n hanfodol os yw'r *Bwrdd* am gyflawni ei dasg craffu. Oherwydd nad oedd yr ymgysylltu ffurfiol hwn gyda gwahanol grwpiau ac unigolion wedi'i nodi yn y Cylch Gorchwyl, gallai hyn fod wedi cyfrannu at beth o'r diffyg eglurder, fel y soniwyd uchod, ynghylch rôl y *Bwrdd*.

## **Gwerthuso: casgliad**

36. Er mai rôl eglur y Bwrdd yn ei Gylch Gorchwyl oedd adrodd i a chynghori'r Gweinidog ar berfformiad gwasanaeth addysg Sir Ddinbych drwyddo draw, ei effaith ychwanegol, yn anochel, oedd rhoi cryn bwysau ar y broses adfer yn Sir Ddinbych. Roedd ei graffu manwl yn sicrhau, pe bai unrhyw duedd wedi bod o ran diffyg impetws neu ddiffyg ffocws ar flaenoriaethau brys, ar lefel arweinyddiaeth a gwleidyddol newydd y Sir neu o danynt, bod y duedd honno'n cael ei dileu.
37. Er, ar y ddaear, bod rhywfaint o ddiffyg eglurder ynghylch swyddogaeth, parhad a gweithrediad y Bwrdd (fel y soniwyd uchod). Roedd hyn efallai yn anochel o gofio bod model newydd ar gyfer cywiro sefyllfa anodd yn cael ei gymhwyso am y tro cyntaf yng Nghymru a'i fod, beth bynnag, yn eithaf ymylol o ran effeithiolrwydd ac effaith y Bwrdd yn gyffredinol.
38. Er bod y broses adfer yn llwyddiannus yn y pen draw, pe na byddai wedi llwyddo byddai adborth y Bwrdd i'r Gweinidog wedi nodi hyn yn glir - efallai yn gynt ac yn gliriach na fyddai wedi digwydd fel arall - gan roi mesurau eraill ar waith yn ddigon buan. Felly, roedd gan y Bwrdd swyddogaeth 'wrth gefn' bwysig er yn un nad oedd angen iddo ei hymarfer fel y digwyddodd.
39. Llwyddodd y Bwrdd i gyflawni ei effeithiau am gost gymharol isel ac mewn ffordd a lwyddodd i gynnal didwylledd a chynaliadwyedd yr Awdurdod Addysg Lleol.
40. Felly, roedd Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol Sir Ddinbych yn ymyriad llwyddiannus sydd, os rhoddir sylw dyledus i'r materion a godir uchod, yn debygol o fod yn ddull gwerthfawr o gywiro achosion eraill o danberfformio gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.



# 1. Rhagarweiniad

## Cyd-destun

1.1. Roedd cyfres o adroddiadau yn 2006 a 2007 wedi nodi bod gan wasanaethau addysg Sir Ddinbych ddiffygion mewn meysydd pwysig:

- Roedd Adroddiad Arolygu o'r Gwasanaethau Cymorth Ieuentid gan Estyn yn 2006 wedi nodi diffygion mewn arweinyddiaeth a rheolaeth strategol (Estyn, 2006);
- roedd Adroddiad Arolygu o'r Awdurdod Addysg Lleol gan Estyn yng Ngorffennaf 2007 wedi nodi nifer o fethiannau tebyg, gan gynnwys arweinyddiaeth a chynllunio aneffeithiol a diffyg ffocws ar flaenoriaethau a gweithredu i godi safonau (Estyn, 2007);
- comisiynodd yr Awdurdod gwmni ymgynghorol, Cambridge Education, i weld sut y gellid gwella safon yr addysg yn y Sir (Cambridge Education Ltd, 2007). Daeth eu hadroddiad yn dwyn y teitl 'Moderneiddio Addysg' a gyhoeddwyd ym Medi 2007 i'r casgliad:
  - bod yr AALI yn gweithredu mewn ffordd a oedd wedi dyddio ac a oedd yn ddigyswllt;
  - bod angen mwy o gynllunio strategol; a
  - bod angen i'r AALI wella ei berthynas gydag ysgolion yn Sir Ddinbych.

1.2. Meddai'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Jane Hutt AC, mewn datganiad ym mis Medi 2007:

'Mae perfformiad Sir Ddinbych yn annerbyniol. Mae gan ddysgwyr ar draws Cymru hawl i wasanaethau o safon, ac mae gan ysgolion hawl i gymorth, a lle bo hynny'n briodol, i ddisgwyl cael eu herio gan eu hawdurdodau lleol. Mae gwasanaethau addysg effeithiol yn hanfodol i les a rhagolygon ein plant a'n pobl ifanc i'r dyfodol. Mae gormod o lawer o bobl ifanc yn Sir

Ddinbych yn absennol o'r ysgol, yn tangyflawni ac yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau. Rhaid i bethau newid yn Sir Ddinbych a rhaid i Lywodraeth y Cynulliad sicrhau bod hynny'n digwydd.'

1.3. Yn Nhachwedd 2007, ar ôl ystyried ac ymwrthod â dulliau eraill, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai *Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol* yn cael ei sefydlu (BBC, 2007) i sbarduno'r broses o weinyddu a darparu addysg yn Sir Ddinbych er mwyn iddi gyrraedd lefel dderbyniol. Byddai'r cymorth hwn yn cydreddeg â ffynonellau cymorth a gweithgareddau parhaus eraill, gan gynnwys:

- adolygiadau rheolaidd gan Estyn;
- cymorth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i gynnwys tîm bychan o'r Gymdeithas i weithio ochr yn ochr â swyddogion o Sir Ddinbych i'w helpu 'ar y ddaear' i gynyddu eu capasiti;
- cymorth gan Swyddfa Archwilio Cymru – y corff gwarchod ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru gyda ffocws ar hyrwyddo gwelliannau i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn atebol ac wedi eu rheoli'n dda. Mewn arolygiad, roedd SAC eisoes wedi nodi gwendidau difrifol mewn llywodraethu corfforaethol yn yr Awdurdod (SAC, 2008); a
- gweithgareddau Sir Ddinbych ei hun, gan gynnwys y Bwrdd Moderneiddio Addysg mewnol.

1.4. Yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd (gweler Atodiad B am y fersiwn llawn), roedd y Gweinidog wedi nodi tri maes allweddol y dylai'r Bwrdd roi sylw arbennig iddynt.

- i) cynnydd gyda'r cynllun gweithredu a baratowyd gan Sir Ddinbych mewn ymateb i arolygiad Estyn o'r gwasanaeth addysg a chyda'r cynllun gweithredu ar gyfer arolygiad Estyn yn 2006 o'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (ac unrhyw newidiadau i'r cynlluniau hynny y byddai Estyn yn eu cymeradwyo);

- ii) cynnydd ar y gwendidau a'r cyfleoedd a nodwyd yn adroddiad Cambridge Education a gomisiynwyd gan Sir Ddinbych; a
- iii) cynnydd ar adolygu'r ddarpariaeth lleoedd ysgolion, gan gynnwys y ddarpariaeth 16-19 oed.

1.5. Bu'r Bwrdd yn weithredol tan fis Mai 2010, pryd y teimlwyd nad oedd mwyach angen ei rôl graffu. Daeth Adroddiad Terfynol y Bwrdd i'r casgliad:

'Bod gan Sir Ddinbych bellach yr arweinyddiaeth, y strwythurau, y penderfyniad a'r capasiti i gynnal ei rhaglen welliannau' ac 'o dan y gyfundrefn bresennol nad oes fawr o berygl y bydd yr AALI yn llithro'n ôl i'r categori 'methu' (y Bwrdd Adfer, 2010).

### **Trosolwg ar Weithgareddau'r Bwrdd Adfer**

- 1.6. Roedd y Bwrdd wedi'i gyfarwyddo i gyfarfod yn breifat unwaith y mis dros y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth 2008, cyn penderfynu ei hun pa mor aml y byddai'n cyfarfod - fel y digwyddodd, cyfarfu'n fras pob deufis. Ym mhob cyfarfod, roedd y Bwrdd yn cael ei ddiweddarau gan Arweinydd y Cyngor Sir (a oedd hefyd yn gyfrifol am y portffolio Addysg), y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a oedd yn gyfrifol am Ddysgu Gydol Oes a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac uwch swyddogion eraill o Gyngor Sir Ddinbych, ar y cynnydd a wnaed gyda'r cynlluniau gweithredu. Roedd aelodau'n derbyn ac yn trafod papurau polisi drafft a dogfennau perthnasol eraill gan yr Awdurdod.
- 1.7. Roedd rhanddeiliaid allweddol eraill – fel cynrychiolwyr o Estyn a CLILC ac o blith y penaethiaid, Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Fforwm Llywodraethwyr, Swyddogion Gwella Ysgolion yr Awdurdod ac Ystadegwyr o Lywodraeth y Cynulliad – hefyd yn mynychu i roi tystiolaeth ac i ateb cwestiynau yn y cyfarfodydd.

1.8. Roedd Aelodau'r Bwrdd hefyd yn mynychu cyfarfodydd allweddol gyda'r AALI a thu hwnt. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd y Bwrdd Moderneiddio Addysg, y Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes, y Fforwm Llywodraethwyr, grwpiau clwstwr penaethiaid, y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion, y Cyd-Grŵp Rheoli Addysg / Gwasanaethau Cymdeithasol, y Fforwm Ieuentid, a hefyd yn mynychu sesiynau adborth chwarterol yn dilyn ymweliadau monitro gan Estyn. Yn ogystal, roedd Aelodau'r Bwrdd yn cyfarfod â swyddogion perthnasol o Sir Ddinbych i gynnal trafodaethau mwy manwl ar bolisïau moderneiddio addysg a chyllid a pherfformiad ysgolion.

### *Amserlen*

1.9. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Bwrdd ar 31 Ionawr 2008 a chynhaliwyd yr un olaf ym mis Mawrth 2010.

### **Nod ac amcanion yr ymchwil**

1.10. Nod ffurfiol y gwerthusiad a adroddir arno yma oedd: ystyried i ba raddau oedd y Bwrdd wedi bod yn effeithiol ac a oedd y Bwrdd wedi cyfrannu at wella'r Awdurdod Addysg Lleol; ac yn benodol i dynnu sylw at unrhyw enghreifftiau o ymarfer da a allai oleuo ymyriadau yn y dyfodol.

1.11. Roedd amcanion mwy manwl yr astudiaeth werthuso felly'n canolbwyntio ar ennill dealltwriaeth o gryfderau a gwendidau'r model Bwrdd Adfer, ar adolygu sut oedd y Bwrdd yn cyflawni ei fusnes ac ar edrych ar argraffiadau'r prif randdeiliaid o waith y Bwrdd a'i effaith ar adferiad yr awdurdod.

### **Methodoleg yr ymchwil**

1.12. Er mwyn mynd i'r afael â'r nodau a'r amcanion hyn, roedd angen cael gafael ar a chyfosod barn ystod eang o chwaraewyr yn y broses adfer - aelodau'r Bwrdd, dalwyr swyddi gwleidyddol a gweithredol yn yr AALI a

rhanddeiliaid eraill. Cafwyd gafael ar farn y bobl hyn mewn cyfres o drafodaethau ansoddol a oedd wedi eu strwythuro ar sail canllawiau trafod. Cafodd y trafodaethau eu recordio'n ddigidol (gyda chaniatâd) a thystiolaeth o'r recordiadau eu cyfosod mewn fframwaith ddadansoddi thematig.

- 1.13. Cyflawnwyd y gwaith o ddehongli a dadansoddi'r data ansoddol yn defnyddio grid thematig mapio data. Datblygwyd y prif themâu ar gyfer y fframwaith dadansoddi o'r canllawiau pynciau trafod a thrwy wneud adolygiad cychwynnol o gyfweiliadau. Unwaith y daeth y tîm ymchwil i gytundeb ar y fframwaith dadansoddi, troswyd pob thema yn bennawd colofn mewn grid (wedi'i greu yn Excel). Roedd pob rhes yn y grid yn cynrychioli 'achos' (hynny yw, unigolyn). Cafodd y data o bob cyfweiliad ei dynnu allan a'i grynhoi i'w fewnosod mewn cell benodol yn y grid. O ganlyniad, crëwyd cyfres o dablau wedi eu poblogi gyda'r cyfweiliadau i gyd - fel bod y dadansoddwr yn gallu darllen ar draws y rhes i weld barn unigolion ac i lawr y golofn i gael persbectif thematig. Defnyddiwyd dyfyniadau uniongyrchol hefyd yn yr adroddiad i helpu i egluro pwynt a wnaed neu bersbectif yr ymatebwr.
- 1.14. Cyn y cyfnod ymgynghori ansoddol, aeth y tîm ymchwil hefyd ati i gyflawni adolygiad o'r papurau, dogfennau a'r adroddiadau data perthnasol (cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd, adroddiadau'r Cadeirydd, cynlluniau gweithredu, adroddiadau gan Estyn ac ati). Roedd hwn yn rhoi disgrifiad mewn trefn o brosesu sefydlu a gweithredu'r Bwrdd i roi'r cyd-destun llawn ar gyfer yr ymchwil. Cyflwynir hwn yn Atodiad A.c
- 1.15. Ar y cwestiwn canolog - i ba raddau wnaeth y Bwrdd gyfrannu at yr adfer – i wneud gwerthusiad mae angen pwyso a mesur barn a safbwyntiau sydd weithiau'n gymysg ac anghyson a, lle bo hynny'n berthnasol, mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn ystyried ystod o safbwyntiau, wedi eu cydbwyso gan ffeithiau lle mae'r rheini'n hysbys. Ni fydd yr holl randdeiliaid yn adferiad Sir Ddinbych yn rhannu casgliadau cyffredinol y gwerthusiad ond yn gobeithio y medrant ddeall, o'r dystiolaeth a gyflwynir, sut y cawsant eu cyrraedd.

## **2. Strwythur, cylch gwaith a chyfrifoldebau'r Bwrdd**

2.1. Mae'r adran hon yn disgrifio aelodaeth, cylch gwaith a chyfrifoldebau'r Bwrdd ac yn rhoi trosolwg ar y persbectifau ar bob un o'r rhain.

### **Aelodaeth**

2.2. I ddechrau roedd y Bwrdd yn cynnwys saith aelod, gan gynnwys y Cadeirydd. Dewiswyd yr aelodau gan y Gweinidog, yn dilyn arweiniad swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad a CLILC. Dewiswyd aelodau'r Bwrdd ar sail eu henw da a'u proffesiynoldeb fel unigolion a hefyd ar sail maes eu harbenigedd a'u gwybodaeth a oedd yn cynnwys:

- addysg;
- arolygiadau ysgolion;
- safonau a gwella ysgolion;
- gwaith rheoleiddio;
- craffu a pherfformiad;
- llywodraeth leol;
- rheolaeth ac arweinyddiaeth; a
- gwasanaethau plant, pobl ifanc a ieuencid.

Rhoddir y manylion llawn ar aelodaeth o'r Bwrdd yn Atodiad C.

2.3. Yn dilyn pryderon a gododd yn ystod blwyddyn gyntaf bodolaeth y Bwrdd ynghylch y berthynas rhwng y gwasanaethau addysg a chymdeithasol (a welwyd yn arbennig pan gaewyd Uned Breswyl Hyfrydle yn sydyn – gweler isod) yn ogystal â phryderon penodol ynghylch y gwasanaethau ieuencid (a godwyd hefyd mewn adroddiad arolygu gan Estyn - Estyn 2006), teimlai'r Bwrdd nad oedd ganddynt ddigon o arbenigedd penodol ym meysydd gwasanaethau cymdeithasol plant a gwasanaethau ieuencid. Codwyd y pryderon hyn drwy'r ysgrifenyddiaeth, a daeth swyddogion o'r Adran Plant, Addysg, Dysgu

Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) o hyd i a gwahodd dau aelod arall gydag arbenigedd penodol yn y meysydd hyn i ymuno â'r Bwrdd. Roedd hyn yn dod â chyfanswm nifer yr aelodau i naw. Ni newidiodd gyfansoddiad y Bwrdd wedyn hyd nes y daeth ei waith i ben.

- 2.4. Roedd y lefel uchel o arbenigedd a phrofiad a oedd gan aelodau unigol o'r Bwrdd yn un o'r pethau a nodwyd gan bawb i fod yn un o'i gryfderau mwyaf fel y gallai pobl weld bod gan y Bwrdd y sylwedd a'r awdurdod angenrheidiol i gyflawni ei gylch gwaith. Teimlwyd fod gan y Bwrdd ddealltwriaeth dda o'r ystod o'r swyddogaethau yr oedd swyddogion yr Awdurdod yn eu perfformio, a'r sialensau yr oeddent yn eu hwynebu, oherwydd bod gan yr aelodau ystod eang o brofiad cyfatebol; ac roedd cydbwysedd da rhwng ymarferwyr wrth eu gwaith (yn enwedig penaethiaid) ac arbenigwyr wedi ymddeol / lled-ymddeol.
- 2.5. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (ac yn enwedig aelodau'r Bwrdd eu hunain) yn teimlo bod y pwynt olaf hwn, sef sicrhau cydbwysedd priodol rhwng ymarferwyr wrth eu gwaith ac arbenigwyr wedi ymddeol / lled-ymddeol yn hanfodol i sicrhau y gallai'r Bwrdd ddangos ac adlewyrchu gwybodaeth am arferion diweddar a mwy cyfredol yr AALI ynghyd â phrofiad tymor hir o weithio gydag ystod eang o awdurdodau a rhanddeiliaid. Fel y soniwn uchod, y teimlad yn gyffredinol oedd bod hyn wedi'i gyflawni, er y lleisiodd un ymatebwr farn y byddai cynrychiolaeth ychwanegol gan gyn-gyfarwyddwyr addysg wedi bod yn werthfawr i ddod â mwy o brofiad o arwain Awdurdodau Addysg Lleol at y Bwrdd.

### **Cylch Gorchwyl**

- 2.6. Roedd y Cylch Gorchwyl (Atodiad B) ar gyfer y Bwrdd yn amlinellu ei gyfrifoldebau o ran cynghori ac adrodd i'r Gweinidog ar berfformiad gwasanaeth addysg Cyngor Sir Ddinbych. Yn gryno, roedd y Bwrdd i dalu sylw arbennig i'r:

- cynnydd gyda'r cynlluniau gweithredu a baratowyd gan Sir Ddinbych mewn ymateb i arolygiad Estyn o'r gwasanaeth addysg

yn 2007, ac o'r gwasanaethau ieuencid yn 2006 (Estyn 2006 a 2007);

- cynnydd gyda'r gwendidau a'r cyfleoedd a nodwyd yn adroddiad cwmni Cambridge Education Ltd (a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych) (Cambridge Education Ltd, 2007); a'r
- cynnydd ar adolygu'r ddarpariaeth lleoedd ysgolion.

2.7. Ar y cyfan, roedd aelodau'r Bwrdd yn ystyried bod y Cylch Gorchwyl yn briodol i ategu ei weithgareddau ac, at ei gilydd, ei fod yn rhoi sylfaen glir i'r Bwrdd weithredu arni. Dywedodd rai o aelodau'r Bwrdd fod yna hefyd rai pryderon bod y Cylch Gorchwyl efallai yn rhy fras, ond drwy gadeirio ac arweiniad gofalus gan y Cadeirydd, llwyddwyd i gadw ffocws clir ar y materion a oedd yn cael eu trafod a'u craffu.

2.8. Teimlwyd fod ymestyn y Cylch Gorchwyl i gwmpasu materion diogelu (hynny yw, sicrhau bod y Bwrdd yn craffu ar faterion yn ymwneud â chynllunio, er mwyn darparu gwasanaethau'n ymwneud â gofal a lles plant a phobl ifanc agored i niwed mewn sefyllfaoedd addysgol, yn ogystal â'u cyrhaeddiad addysgol) yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd rhai pryderon, yn enwedig gan yr Awdurdod, na chafodd y rhesymau dros ymestyn y Cylch Gorchwyl eu hegluro na'u cyfleu yn ddigon clir i'r Awdurdod, gyda rhai pryderon bod yna risg o symud pyst y gôl ar yr adeg hon. Er hynny, adroddwyd bod y Bwrdd wedi ymdopi â'r ychwanegiad hwn at y Cylch Gorchwyl gan sicrhau bod y ffocws ar yr agweddau addysgol ar ddiogelu. Cyflawnwyd hyn drwy sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu trafod eu pryderon gyda'r Bwrdd, ac wrth i'r Awdurdod ddangos sut ydoedd yn ymateb i'r materion diogelu.

## **Gweithgareddau**

### *Cyfarfodydd*

2.9. Am y tri mis cyntaf o'i fodolaeth, roedd y Bwrdd yn cyfarfod yn fisol fel y gallai'r aelodau ymgyswngu â'r cefndir ac ennill gwybodaeth am y prif faterion. Ar ôl hyn, roedd y Bwrdd yn cyfarfod pob deufis, gan gyfarfod



15 o weithiau i gyd rhwng Chwefror 2008 a Mawrth 2010. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn swyddfeydd Llywodraeth y Cynulliad yn Llanelwy, Sir Ddinbych gan bara am ddiwrnod llawn fel rheol.

- 2.10. Cyn pob cyfarfod, byddai aelodau'r Bwrdd yn derbyn i'w hadolygu unrhyw bapurau polisi a chynlluniau gweithredu drafft ynghyd ag unrhyw ddogfennau perthnasol eraill gan yr awdurdod. Tybiodd aelodau'r Bwrdd fod angen paratoi am o leiaf hanner diwrnod i adolygu'r dogfennau hyn.
- 2.11. Yn ôl aelodau'r Bwrdd, wrth i amser fynd yn ei flaen, roedd mwy o ryngweithio gyda'r Awdurdod cyn y cyfarfodydd. Fel arfer, roedd y diwrnod cyn y cyfarfod yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i gyfarfod ag unigolion allweddol o'r Awdurdod ac i arsylwi ar gyfarfodydd. Teimlwyd fod hyn yn ddefnydd effeithiol o amser ac yn ddatblygiad cadarnhaol yng ngweithrediad y Bwrdd.
- 2.12. Ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd, byddai Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych, y Prif Weithredwr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion eraill hefyd yn mynychu am ran o'r cyfarfod. Byddai'r Arweinydd a'r cyfarwyddwyr yn rhoi diweddariad ar gynnydd a byddai swyddogion hefyd yn diweddarau ar weithgareddau mewn meysydd penodol, er enghraifft gwella ysgolion a diogelu. Yn ôl staff yr Awdurdod, ni wyddent beth fyddai ar yr agenda ym mhob cyfarfod, felly roeddent yn paratoi tystiolaeth ar ystod o faterion y teimlent y byddai'r Bwrdd am edrych arnynt. Er y disgrifiwyd hyn fel gwaith caled iawn a thraul ar amser, adroddwyd ei fod hefyd yn ffordd dda iawn o ganolbwyntio fel tîm ar ystod o faterion gan roi amserlen i'r Awdurdod weithio tuag ati i sicrhau bod ganddo amrediad trylwyr o dystiolaeth i'w chyflwyno.
- 2.13. Nid oedd Estyn wedi'i gynrychioli ar y Bwrdd, oherwydd ei rôl fel yr arolygiaeth annibynnol. Fodd bynnag, roedd yr arolygydd a oedd yn gyfrifol am AALI Sir Ddinbych wedi mynychu cyfarfodydd y Bwrdd lle oedd y rhain yn dilyn ymweliad monitro gan Estyn, i ddiweddarau'r Bwrdd arno. Teimlwyd fod presenoldeb Estyn yng Nghyfarfodydd y Bwrdd yn hynod bwysig i sicrhau bod yr holl faterion allweddol yn cael eu hystyried

yn ystod y cyfarfod a bod argymhellion y Bwrdd yn cyd-fynd gyda ac yn adeiladu ar rai Estyn.

### *Y rôl graffu*

2.14. Roedd yr ymatebwyr i gyd yn cydnabod y gwaith aruthrol yr oedd angen i'r Awdurdod ei wneud i symud ymlaen o arolygiad Estyn yn 2007. Yn ogystal, roedd yr Awdurdod yn mynd drwy newidiadau mewnol mawr ar lefel wleidyddol a gweithredol, gyda staff allweddol yn symud swyddi, yn enwedig yn y Gyfarwyddiaeth Addysg. Roedd ansicrwydd eang ynghylch a fyddai'r newidiadau a oedd yn digwydd yn yr Awdurdod yn arwain at welliannau sefydlog a chynaliadwy. Teimlai aelodau'r Bwrdd a chynrychiolwyr o APADGOS fod rôl graffu annibynnol y Bwrdd, yn adolygu a herio cynlluniau a gweithgareddau gweithredol yr Awdurdod, wedi bod yn hollbwysig. Roedd yr Awdurdod ei hun efallai'n teimlo'n fwy hyderus, wrth i amser fynd heibio, bod y newidiadau yn effeithiol a chynaliadwy (oherwydd y systemau a'r gweithdrefnau oedd yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro'n agos ar draws y Gyfarwyddiaeth i sicrhau bod unrhyw broblemau yn derbyn sylw bob tro). Fodd bynnag, ar y cyfan teimlai aelodau'r Bwrdd a swyddogion yr Awdurdod fod y Bwrdd yn llwyddo i gyflawni ei rôl graffu drwy adolygu'r dystiolaeth yn drylwyr a thrwy holi'r Awdurdod yng nghyfarfodydd y Bwrdd i sicrhau bod cynnydd cynaliadwy yn cael ei wneud.

2.15. Yn ôl ymatebwyr o'r Awdurdod, er bod y Bwrdd yn herio ac yn gofyn cwestiynau perthnasol iawn, nid oedd lefel y craffu (ar ôl y misoedd cyntaf efallai) mor galed ag y gallai fod o'i gymharu â'u profiadau o brosesau craffu eraill. Er hynny roedd yn broses drylwyr iawn o ran sicrhau atebion i gwestiynau ar ystod eang o faterion.

### **Gosod blaenoriaethau**

2.16. Roedd cytundeb cyffredinol gan pawb a ymatebodd bod Adroddiad Arolygu Estyn (2007) ac Adroddiad Moderneiddio Addysg gan

Cambridge Education a gomisiynwyd gan Sir Ddinbych wedi tynnu sylw at dri mater allweddol, sef:

- rheolaeth ac arweinyddiaeth;
- gwella ysgolion;
- rheoli'r broses o ddyrannu lleoedd ysgolion; a
- Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid.

2.17. Roedd y rhain wedi eu hadlewyrch yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd.

Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith aelodau'r Bwrdd mai dyma'r blaenoriaethau cywir i ganolbwyntio arnynt – ac roedd Sir Ddinbych hefyd yn cydnabod hyn.

2.18. Yn ystod blwyddyn gyntaf ei weithrediad, daeth yn glir i'r Bwrdd bod yna broblemau gyda'r berthynas rhwng y gwasanaethau addysg a chymdeithasol yn Sir Ddinbych, a theimlwyd ei bod yn bwysig adlewyrchu hyn yng nghylch gwaith y Bwrdd oherwydd y ffordd yr oedd yn effeithio ar y ddarpariaeth addysg.

2.19. Yn enwedig, tynnwyd sylw'r Bwrdd at y sefyllfa yn Uned Breswyl Hyfrydle yn Ysgol Plas Bron Dyffryn, a oedd yn darparu gofal preswyl i bobl ifanc gydag Anhwylder ar y Sbectwm Awtistig. Penderfynodd yr Awdurdod gau'r Uned yng Ngorffennaf 2008, gan mai ond dau breswlydd oedd yn yr Uned, er ei bod wedi'i chofrestru ar gyfer chwech. Roedd swyddogion o'r Cyngor Sir yn rhagweld diffyg yn y costau rhedeg o ymhell dros £0.5 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2008/09. Achosodd y cyhoeddiad y byddai'r Uned yn cau anesmwythyd yn lleol oherwydd nad oedd amseriad y penderfyniad wedi gadael dim amser bron i weithio gyda'r plant a'r teuluoedd a effeithiwyd arnynt fwyaf. Gofynnwyd i Estyn, ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gyflawni cyd-adolygiad o'r broses gau. Dyma pryd y tynnwyd sylw'r Bwrdd at y mater pan ddaeth yn glir bod gan hyn oblygiadau pwysig i'r berthynas rhwng y gwasanaethau addysg a chymdeithasol. Y rheswm am hyn oedd bod yna dystiolaeth i ddangos mai un o'r ffactorau

a gyfrannodd at gau'r Uned oedd arweinyddiaeth a rheolaeth wael yn Sir Ddinbych yn ogystal â gwaith partneriaeth anfoddhaol (Rowett et al, 2008). Teimlai'r Bwrdd, felly, y dylai hyn gael ei gynnwys yn ei gylch gwaith craffu.

2.20. Pan ddadansoddwyd argraffiadau'r holl ymatebwyr o sut oedd blaenoriaethau'r Bwrdd wedi cael eu gosod, dywedodd y rhan fwyaf iddynt gael eu hategu gan Adroddiad Arolygu Estyn (2007) ac adroddiadau monitro yn dilyn hynny a hefyd gan ddarganfyddiadau ac argymhellion Adroddiad Cambridge Education. Fodd bynnag teimlai aelodau'r Bwrdd fod blaenoriaethau yn esblygu a datblygu dros amser wrth i'r Awdurdod wneud cynnydd, ac i adlewyrchu meysydd angen. Er enghraifft, ar y dechrau, roedd y Bwrdd yn canolbwyntio ar faterion safonau, arweinyddiaeth a rheolaeth ond, nes ymlaen, daeth materion yng nghyswllt cau Hyfrydle a'r trefniadau gweithio rhwng cyfarwyddiaethau'r gwasanaethau addysg a chymdeithasol yn flaenoriaeth gryfach. Tuag at ddiwedd bodolaeth y Bwrdd, rhoddwyd mwy o flaenoriaeth i gynnal gwelliannau a gwreiddio newid. Fodd bynnag, yn ôl aelodau'r Bwrdd er bod y pwyslais wedi newid, mai yr un oedd yr egwyddorion sylfaenol drwy gydol bodolaeth y Bwrdd, gyda phob cyfarfod yn trafod y meysydd perthnasol i sicrhau nad oedd unrhyw beth yn cael ei esgeuluso.

### **Cymorth i'r Bwrdd**

2.21. Cafodd cymorth ysgrifenyddol a gweinyddol ar gyfer y Bwrdd ei ddarparu gan swyddogion yn APADGOS. Roedd y cymorth hwn yn cynnwys trefnu a chlacio mewn cyfarfodydd, casglu ynghyd a dosbarthu papurau a dogfennau a helpu gyda'r gwaith o baratoi'r adroddiadau i'r Gweinidog yn ogystal â rhoi cyngor a gwybodaeth am faterion polisi mwy cymhleth. Roedd aelodau'r Bwrdd yn ystyried y cymorth hwn i fod yn hanfodol i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y deunyddiau cefndir angenrheidiol a derbyn eglurhad pellach ar faterion fel bo angen.

2.22. Yn ôl aelodau'r Bwrdd, roedd rôl APADGOS o ran rhoi cymorth i'r Bwrdd yn dda iawn ar y cyfan. Roedd y swyddogion a oedd yn delio gyda'r Bwrdd yn hynod brofiadol a gwybodus am faterion addysgol ar lefel genedlaethol a lleol ac felly'n gallu darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ac eglurhad lle oedd y Bwrdd yn gofyn am hyn.

2.23. Ar y cyfan, roedd pawb yn teimlo fod APADGOS wedi cadw eu pellter yn dda o drafodaethau a gweithrediad y Bwrdd gan sicrhau eu bod yn niwtral; er bod lleiafrif o ymatebwyr y tu allan i'r Bwrdd wedi argymhell y byddai ysgrifenyddiaeth niwtral ar wahân i APADGOS wedi bod yn fwy priodol i nodi'n glir bod y Bwrdd yn gwbl annibynnol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu na wnaeth ysgrifenyddiaeth weithredu mewn ffordd a oedd bob amser yn hollol niwtral a diduedd.

### **Cyfrifoldebau o fewn y Bwrdd**

2.24. Roedd cyfansoddiad y Bwrdd, o ran meysydd arbenigedd yr unigolion, yn golygu bod dyrannu cyfrifoldebau yn weddol rwydd oherwydd eu bod yn gallu 'adlewyrchu' cyfrifoldebau unigolion allweddol yn Sir Ddinbych (er enghraifft, addysg, safonau ysgolion, gwasanaethau ieuencid, gwasanaethau cymdeithasol, arweinyddiaeth ysgolion ayb). Ymddengys fod hyn wedi gweithio'n dda i feithrin deialog broffesiynol ac o'r herwydd mae'n ymddangos bod yna gyd-barch a chyd-ddealltwriaeth o'r rolau gan y Bwrdd a Sir Ddinbych.

2.25. Wrth i amser fynd heibio, roedd aelodau'r Bwrdd yn ceisio gwneud cysylltiadau gydag unigolion a thimau allweddol yn yr Awdurdod y tu hwnt i sgôp y cyfarfodydd ffurfiol. Pwrpas hyn oedd sefydlu deialog barhaus a threfnu cyfle i fynychu cyfarfodydd a thrafodaethau a oedd yn digwydd yn yr Awdurdod (er enghraifft, mynychu'r Bwrdd Moderneiddio Addysg neu gyfarfodydd diogelu). Roedd hyn yn ffordd tra effeithiol o sicrhau bod y Bwrdd yn gallu cadw i fyny gyda'r datblygiadau a'r cynnydd, a darparu cymorth neu arweiniad lle oedd hynny'n briodol. Roedd hefyd yn rhoi cyfle i'r rhanddeiliaid allanol fwydo i'r broses y tu allan i'r cyfarfodydd Bwrdd pob deufis.

2.26. Roedd aelodau o'r Bwrdd gyda phrofiad o wella ysgolion wedi cyfrannu'n weithredol at adolygu data monitro cyrhaeddiad disgyblion Sir Ddinbych a thrafod sut i wella hyn gyda staff yr Awdurdod. Felly hefyd, roedd aelodau o'r Bwrdd gyda phrofiad diogelu a chymorth ieuenctid wedi cyfrannu at drafodaethau ar weithdrefnau a datblygiadau polisi yn y meysydd hyn o fewn yr Awdurdod. Esblygodd yr agwedd 'gefnogol' hon ar weithgareddau aelodau'r Bwrdd dros amser ac ymddengys bod gan aelodau'r Bwrdd wahanol feysydd mewnbyn ar y lefel yma. Er enghraifft, roedd rhai o aelodau'r Bwrdd yn fwy gweithredol o ran mynychu cyfarfodydd yr Awdurdod nag eraill, ond roedd hyn yn bennaf oherwydd bod aelodau'r Bwrdd wedi sicrhau eu bod ond yn cyfrannu at weithgareddau'r Awdurdod lle oedd ganddynt arbenigedd neilltuol, fel data cyrhaeddiad disgyblion neu ffrydiau ariannu ar gyfer y ddarpariaeth cymorth ieuenctid.

### **Argraffiadau o'r Bwrdd**

2.27. Ar y cyfan, roedd y Bwrdd yn cael ei barchu gan yr Awdurdod a rhanddeiliaid yn bennaf oherwydd arbenigedd a phrofiad yr aelodau unigol. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cydnabod nad oedd gan y Bwrdd unrhyw fandad neu bŵer neilltuol, roeddent yn ei weld fel corff gydag awdurdod a dylanwad sylweddol drwy ei rôl adrodd i'r Gweinidog a roeddent bob amser yn ystyriol o hyn.

2.28. Cafodd y berthynas rhwng y Bwrdd a Sir Ddinbych hefyd ei thrafod gyda'r ymatebwyr. Disgrifiodd yr ymatebwyr o'r Awdurdod fod yna deimlad o amau'r Bwrdd ac anfodlonrwydd ar y dechrau gyda gorfod derbyn ymyriad o'r fath. Adleisiwyd y farn yma gan aelodau'r Bwrdd, a ddywedodd fod hyn yn adwaith dealladwy a naturiol oherwydd bod Sir Ddinbych mewn sefyllfa bur anodd. Dangosodd y Bwrdd, o dan arweiniad clir y Cadeirydd, yn fuan yn y broses eu bod yn deall hyn drwy nodi'n glir eu bod yno i gefnogi'r Awdurdod ym mha bynnag ffordd y medrent. Yn ogystal, dyma'r tro cyntaf yng Nghymru i Fwrdd gael ei sefydlu i oruchwylio gwelliannau mewn AALI, felly roedd llawer iawn o

ansicrwydd ynghylch sut fyddai ei bresenoldeb yn effeithio ar yr Awdurdod.

2.29. Fodd bynnag, teimlwyd fod yr ansicrwydd hwn yn adwaith naturiol, oherwydd bod sefydlu'r Bwrdd yn gwneud i Sir Ddinbych sefyll allan wrth ymyl awdurdodau eraill mewn ffordd anffafriol tra'n ychwanegu at y pwysau ar y Sir o ganlyniad i arolygiad Estyn, gan felly godi proffil yr AALI fel un a oedd yn perfformio'n wael yn uwch fyth. Fodd bynnag, yn ôl y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, wrth i amser fynd heibio, roedd y berthynas rhwng yr Awdurdod a'r Bwrdd wedi gwella'n arw wrth i gydymddiriedaeth a chyd-barch dyfu ar y ddwy ochr - yn bennaf oherwydd proffesiynoldeb y Bwrdd a'r Awdurdod. Datblygodd y berthynas yma ymhellach wrth i'r Bwrdd chwarae rôl fwy ymarferol drwy ymweld â'r Awdurdod a chynnal trafodaethau gyda rhanddeiliaid, uwch swyddogion a chyfarwyddwyr; ac wrth i'r Awdurdod gydweithredu'n llawn bob amser.

2.30. Roedd yna ystod o argraffiadau o sut oedd rôl y Bwrdd yn cyd-fynd â'r gweithgareddau craffu a monitro eraill oedd hefyd yn eu lle - gan SAC, Estyn a CLILC. Dywedodd y rhan fwyaf fod y Bwrdd wedi darparu rôl werthfawr barhaus o ran sicrhau bod yna 'briff gwyllo' ar gynnydd yr Awdurdod tuag at, ynghyd â'i berfformiad o ran gwella ansawdd ei wasanaethau. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a oedd ei rôl yn ddigon ar wahân i rôl Estyn, o ran bod y Bwrdd a'r Arolygiaeth yn craffu ar gynnydd yr Awdurdod tuag at wella safonau ac ar sut oedd tîm arweinyddiaeth yr Awdurdod yn gweithredu a monitro ymyriadau i wella perfformiad.

### 3. Gweithrediad y Bwrdd

3.1. Yn yr adran hon, byddwn yn disgrifio a thrafod gweithrediad y Bwrdd.

#### Cyfarfodydd a deialog

3.2. Unwaith i'r Bwrdd gael ei sefydlu, roedd yn cyfarfod pob deufis, fel arfer yn swyddfeydd Llywodraeth y Cynulliad yn Llanelwy, Sir Ddinbych.

3.3. Cytunodd y Bwrdd ar y dechrau na ddylid cyfyngu ei weithgareddau i fynychu cyfarfodydd deufisol yn unig ond y dylai aelodau'r Bwrdd fynd ati i fynychu gweithgareddau eraill yn Sir Ddinbych a chyfrannu at ddeialog gyda swyddogion y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd. Dyma enghreifftiau o'r gweithgareddau hyn:

- Bod yn bresennol yn:
  - cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu;
  - y Fforwm Llywodraethwyr;
  - y cyfarfodydd clwstwr;
  - y Fforwm Cyllideb Ysgolion;
  - cyfarfodydd y Bwrdd Diogelu Plant;
  - y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion; a
  - cyfarfodydd traws-awdurdod.
- Trafodaethau gyda:
  - swyddogion yr Awdurdod Lleol;
  - Cynghorwyr;
  - Penaethiaid; a
  - Llywodraethwyr Ysgol.

3.4. Roedd cyfraniad aelodau unigol o'r Bwrdd at weithgareddau o'r fath yn tueddu i fod gan rai gyda gwybodaeth neu arbenigedd neilltuol yn y maes. Felly, er enghraifft, byddai aelod o'r Bwrdd gyda phrofiad blaenorol fel Pennaeth yn mynychu cyfarfod o grŵp clwstwr Penaethiaid, a byddai rhai gyda phrofiad o fod yn uwch swyddog mewn Awdurdod



Lleol yn mynychu'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a chyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

### **Gweithgareddau**

- 3.5. I ddechrau, yn ei gyfarfodydd, roedd y Bwrdd yn canolbwyntio ar gyflawni ei rôl graffu drwy adolygu dogfennau a thrwy holi cynrychiolwyr o'r Awdurdod a rhanddeiliaid fel Estyn. Adroddwyd bod angen i aelodau'r Bwrdd roi llawer iawn o amser yn y dyddiau cynnar i amgyffred a llwyr ddeall yr holl faterion a'r dystiolaeth gefndir. Teimlwyd fod y ffocws cychwynnol hwn ar weithgareddau yn briodol ac angenrheidiol i aelodau'r Bwrdd oherwydd bod llawer iawn o dystiolaeth i'w hadolygu fel y gallai'r Bwrdd fod yn y sefyllfa orau fel corff gwybodus i herio a chraffu ar yr Awdurdod. Lleisiodd leiafrif o'r ymatebwyr o bob un o'r grwpiau rhanddeiliaid y tu allan i'r Bwrdd bryder fod y Bwrdd, bryd hynny, ond yn ailadrodd rôl Estyn o fonitro cynnydd yr Awdurdod tuag at y targedau a osodwyd yn y cynllun gweithredu oherwydd ei bod yn anodd gweld sut oedd y Bwrdd yn ychwanegu gwerth.
- 3.6. Fodd bynnag, wrth i amser fynd heibio, daeth y Bwrdd yn fwy gweithredol mewn mynychu cyfarfodydd a thrafodaethau ar draws yr Awdurdod. Roedd hyn yn rhoi cyfle i aelodau'r Bwrdd weld sut oedd prosesau a gweithdrefnau'n cael eu cyflwyno tra'n rhoi cyfle hefyd i gwestiynu eu gweithrediad ac i weld pa ganlyniadau oedd yn cael eu cyflawni neu eu rhagweld. Roedd y dull arsylwi ac 'archwilio' uniongyrchol hwn lle oedd aelodau'r Bwrdd yn rhyngweithio gyda'r Awdurdod wedi cael ei groesawu'n frwd gan aelodau'r Bwrdd a swyddogion yr Awdurdod.
- 3.7. Trafododd aelodau'r Bwrdd sut oedd gallu ymweld â'r Awdurdod a gweld ei weithgareddau wedi rhoi dealltwriaeth a gwerthfawrogiad gwell iddynt o sut oedd yr Awdurdod yn gweithio, tra'n fodd hefyd iddynt gael deialog gyda gwahanol randdeiliaid yn yr Awdurdod. Roedd yr Awdurdod hefyd yn gefnogol o bresenoldeb aelodau'r Bwrdd mewn cyfarfodydd a'u trafodaethau y tu allan i brif gyfarfodydd y Bwrdd, gan groesawu'r

achosion hyn fel cyfle i gynnig a phrofi syniadau. Esblygodd yr agwedd yma ar weithgareddau'r Bwrdd dros amser gan wneud rhywfaint i dawelu pryderon bod y Bwrdd ond yn ailadrodd rôl Estyn. Fodd bynnag, oherwydd bod y gweithgareddau hyn wedi esblygu a heb gael eu nodi yn y Cylch Gorchwyl, roedd adegau pan deimlwyd fod aelodau'r Bwrdd yn ansicr a allent ymyrryd neu gyfrannu at y cyfarfodydd yr oeddent yn eu mynychu ac, ar y cyfan, roeddent yn gofyn barn yr Awdurdod am a allent leisio barn neu beidio. Er hynny, teimlai'r rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd a swyddogion yr Awdurdod bod y gwaith hwn yn werthfawr ac yn cyfrannu ymdeimlad o gyd-gyrchu tuag at nod cyffredin.

### *Bylchau mewn gweithgareddau*

- 3.8. Yn ôl y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, roedd y Bwrdd yn cyflawni ystod cynhwysfawr o weithgareddau a oedd yn unol â Chylch Gorchwyl a chylch gwaith y Bwrdd. Fodd bynnag, roedd rhai agweddau ar weithgareddau'r Bwrdd y gellid, yn ôl teimladau pob un o'r grwpiau rhanddeiliaid, ac yn enwedig yr Awdurdod, fod wedi cael eu hehangu a'u datblygu. Teimlai rai o randdeiliaid yr Awdurdod y gallai'r Bwrdd fod wedi cyfrannu rôl fwy gefnogol i'r Awdurdod o ran ei gynghori a'i dywys tuag at ei gynllun gweithredu. Roedd rhywfaint o ddadlau ynghylch i ba raddau allai'r Bwrdd roi 'cymorth' oherwydd mai ei brif swyddogaethau oedd herio a chraffu, ond teimlwyd fod angen dimensiwn ychwanegol ar y Bwrdd i wneud hyn oherwydd bod yr Awdurdod yn cael ei herio gan SAC ac Estyn yn ogystal â'r Bwrdd.
- 3.9. Roedd y ffaith bod yr Awdurdod yn derbyn sylw a chraffu penodol gan gyrff fel Estyn a SAC a hefyd gan APADGOS, CLILC a'r Bwrdd, yn golygu bod swyddogion yn y Cyngor yn teimlo dan gryn bwysau i ddarparu tystiolaeth, data a dogfennau i'r rhanddeiliaid hyn tra'n gweithio i gyflawni eu cyfrifoldebau beunyddiol o fewn yr AALI ar yr un pryd. Disgrifiwyd hyn fel adeg o bwysau mawr a theimlai'r Awdurdod weithiau ei fod yn dyblygu ymdrechion wrth ymateb i geisiadau gan y llu ffynonellau hyn, er bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio a chydweithredu'n llawn bob amser gydag unrhyw gais a wnaed iddo.

Felly, teimlwyd y gallai'r Bwrdd fod wedi chwarae rôl mewn cyd-gysylltu gofynion y rhanddeiliaid hyn i sicrhau bod holl gapasiti'r Awdurdod yn cael ei gyfeirio tuag at wella addysg yn ogystal â gweinyddu a chydymffurfio gyda gofynion am ddata ac i fynychu cyfarfodydd.

## **Y berthynas gyda rhanddeiliaid**

- 3.10. Yn ôl pawb a holwyd, roedd perthynas y Bwrdd gyda swyddogion ac aelodau'r Awdurdod a chyda rhanddeiliaid allweddol eraill – llywodraethwyr, staff ysgolion, Estyn, CLILC ac ati – yn un dda. Dywedodd y Bwrdd ei hun fod y berthynas yn un dda a'r teimlad oedd eu bod yn gweithio'n dda gyda rhai y daethant i gysylltiad â nhw. Y tu allan i'r Bwrdd, y farn oedd bod y berthynas yn cael ei gweld fel un 'deg', 'cyfeillgar', 'proffesiynol' a 'chefnogol'. Ar y dechrau, efallai fod rhai gofidiau ynghylch sut fyddai'r Bwrdd yn gweithio gyda staff yr Awdurdod ac eraill, a beth fyddai ei rôl. Fel y digwyddodd, tyfodd y berthynas i fod yn un 'gadarnhaol' a 'blaenllaw' gyda lefel dda o fod yn agored ac o gyd-ddealltwriaeth ynghylch pa mor bwysig oedd helpu'r Awdurdod yn ei adferiad.
- 3.11. Roedd y cwestiwn i ba raddau oedd rôl y Bwrdd yn wahanol i rôl Estyn yn destun trafod gan ymatebwyr o bob un o'r grwpiau rhanddeiliaid. Ymhlith lleiafrif o ymatebwyr ar draws yr Awdurdod a'r rhanddeiliaid ehangach, teimlwyd bod y Bwrdd yn dyblygu rôl Estyn o ran darparu craffu a herio perfformiad yr Awdurdod ac nad oedd y Bwrdd bob amser 'ar yr un dudalen' â gweithgareddau Estyn – yn enwedig o ran amledd ac amseriad yr adrodd. Yn ogystal, teimlwyd na allai'r Bwrdd gael ei weld i fod yn gwneud argymhellion neu sylwadau a oedd yn groes i ddarganfyddiadau Estyn oherwydd bod gan Estyn fandad deddfwriaethol fel corff annibynnol. Dywedodd y rhan fwyaf o aelodau'r Bwrdd fod rôl y Bwrdd yn cyd-fynd ag un Estyn, o ran ei fod yn gallu cael deialog cyson gyda'r Awdurdod ac yn trafod materion a godwyd gan Estyn o bersbectif gwahanol tra'n herio'r Awdurdod ynghylch sut oedd yn gweithio tuag at ei Gynllun Gweithredu.

## 4. Newidiadau yn Sir Ddinbych

4.1. Mae'r adran hon yn amlinellu'r meysydd newid yn Sir Ddinbych ers sefydlu'r Bwrdd ym mis Chwefror 2008. Mae'r dystiolaeth wedi'i chodi o drafodaethau ansoddol gan randdeiliaid yn ogystal ag o adroddiadau a gyhoeddwyd gan Estyn a'r Bwrdd. Yn ogystal â'r newidiadau penodol a ddisgrifir isod, roedd yna deimlad bod prosesau a gweithdrefnau cyffredinol wedi gwella - er enghraifft monitro data, y ffordd oedd cyfarfodydd yn cael eu rhedeg ac o ran y ddeialog broffesiynol rhwng cydweithwyr ar draws yr Awdurdod.

### Newidiadau sefydliadol a staffio yn Sir Ddinbych

- 4.2. Fel y soniwn yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd nifer o newidiadau staffio allweddol mewn swyddi uwch-reolwyr ac arweinyddion yn yr Awdurdod, gan gynnwys:
- Arweinydd y Cyngor (a oedd hefyd yn gyfrifol am addysg);
  - Prif Weithredwr yr Awdurdod;
  - Y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Ddysgu Gydol Oes ac Addysg;
  - Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant;
  - newid yng nghadeirydd y Pwyllgor Craffu; a
  - Pennaeth Gwasanaethau Hamdden a Chymorth Ieuencid.
- 4.3. Crëwyd swyddi ychwanegol, gan gynnwys mwy o swyddogion gwella ysgolion, a diffiniwyd rolau mwy pwrpasol ar gyfer y swyddogion hyn er mwyn gwneud y mwyaf o waith eu hysgolion.
- 4.4. Cafodd dîm rheoli'r Awdurdod ei ailstrwythuro.
- 4.5. Sefydlwyd y Bwrdd Moderneiddio Addysg mewnol gan yr Awdurdod, fel bwrdd lefel uchel i sbarduno newid yn ei flaen. Roedd y Prif Weithredwr, Arweinydd y Cyngor ac uwch-reolwyr eraill o'r Awdurdod yn mynychu'r

Bwrdd. Roedd y Bwrdd Moderneiddio Addysg yn sicrhau bod y Bwrdd Adfer yn derbyn ei adroddiadau misol.

## **Cydweithio**

- 4.6. Mae'r Fforwm Llywodraethwyr wedi cael ei ailsefydlu gyda gwybodaeth a barn yn cael eu cyfnewid yn gadarnhaol rhwng swyddogion cyswllt o'r Awdurdod a chadeiryddion cyrff llywodraethu, a gyfrannodd at wella'r berthynas rhwng ysgolion a'r Awdurdod.
- 4.7. Mae tystiolaeth bod grwpiau clwstwr mewn gwahanol ysgolion yn gweithio mwy ac yn well sydd wedi annog cyfathrebu gwell a mwy agored rhwng ysgolion a'r Awdurdod.
- 4.8. Un maes ffocws gan yr Awdurdod y tynnodd y Bwrdd sylw ato oedd annog mwy o hunan-wella a hunanreolaeth mewn ysgolion. Yn ôl aelodau'r Bwrdd, er bod hyn wedi gwella ychydig, y teimlad oedd bod llawer mwy i'w wneud o ran cefnogi ysgolion i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros wella eu hunain.
- 4.9. Cafwyd gwelliannau mewn cydweithrediad a chydweithio rhwng y Gwasanaethau Addysg a Chymdeithasol, gyda pherthynas weithio agosach rhwng y Cyfarwyddiaethau a chyd-gyfarfodydd tîm lle mae hynny'n briodol.

## **Ariannu**

- 4.10. Mae cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu gan yr Awdurdod i ysgolion i wella eu perfformiad - yn enwedig yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, yn ogystal â chyllid i wella ysgolion ac i godi safonau.

## **Ysgolion**

- 4.11. Roedd y broses derbyn i ysgolion a lleoedd ysgolion wedi bod yn bryder blaenorol oherwydd, yn hanesyddol, ysgolion unigol oedd wedi delio

gyda'r broses dderbyn heb unrhyw gyd-gysylltu ar lefel yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn awr wedi'i gynnwys yn y broses hon. Mae mater y ddarpariaeth lleoedd ysgolion (yn enwedig y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, y ddarpariaeth ffydd, a'r ddarpariaeth chweched dosbarth) yn parhau.

4.12. O bwynt lle nad oedd unrhyw duedd sylweddol mewn canlyniadau cyffredinol yn Sir Ddinbych, gyda thuedd ar i lawr ar lefel TGAU, mae perfformiad disgyblion wedi gwella peth yn ôl rhai dangosyddion yn CA1, CA3 a CA4, gyda thuedd amlwg ar i fyny. Fodd bynnag, mae'r gwelliant (hyd yma) wedi bod yn is nag y byddid yn ei ddisgwyl ar lefel CA2<sup>1</sup> (Estyn, 2010).

### **Hyfforddiant a datblygu**

4.13. Mae hyfforddi a datblygu yn yr Awdurdod wedi gwella, gyda rhaglen hyfforddiant well i uwch-reolwyr ac arweinyddion mewn ysgolion wedi'i chyflwyno, ynghyd â phwyslais newydd ar ddatblygiad proffesiynol parhaus i athrawon yn y Sir.

4.14. Mae adolygiad o berfformiad yn yr Awdurdod hefyd wedi gwella'n sylweddol, gydag adolygiadau bellach yn digwydd yn rheolaidd.

4.15. Mae hyfforddi a datblygu ar gyfer ysgolion i'w helpu i ddefnyddio eu data'n effeithiol hefyd wedi'i sefydlu, i helpu ysgolion i wneud y defnydd gorau o ddata fel rhan o'u dull o wella ysgolion.

4.16. Mae hyfforddiant hefyd wedi'i gyflwyno i sicrhau bod yna gysondeb o ran sut y mae swyddogion gwella ysgolion yn gweithredu eu gwybodaeth arbenigol yn ymarferol.

---

<sup>1</sup> Mae dadansoddiad manwl o berfformiad Sir Ddinbych ym mhob Cyfnod Allweddol ar gael yn yr Atodiad i Adroddiad Terfynol y Bwrdd a gyflwynwyd i'r Gweinidog ym mis Mai 2010.

4.17. Mae hyfforddiant ar ddiogelu i'r ysgolion i gyd wedi helpu i sicrhau bod gan ysgolion ddealltwriaeth a dull cyson o weithredu ar faterion diogelu ac amddiffyn plant.

4.18. Mae hyfforddiant i lywodraethwyr wedi gwella, er yr ymddengys bod sgôp i wneud newidiadau pellach er mwyn datblygu dealltwriaeth llywodraethwyr o'u rôl mewn gwella ysgolion.

### **Newid mewn blaenoriaethau a gwerthoedd**


4.19. Un o'r pryderon cynnar, a godwyd gan Estyn (2007) a Cambridge Education Ltd (2007), oedd bod addysg yn hanesyddol wedi bod yn gymharol isel ar restr flaenoriaethau'r Awdurdod. Ar draws yr holl ymatebwyr o blith y rhanddeiliaid, roedd yn glir nad oedd hyn yn wir mwyach, a bod addysg yn Sir Ddinbych erbyn hyn ar frig yr agenda. Dangosodd dystiolaeth gan yr Awdurdod a'r BWRdd fod newid diwylliant ar droed yn yr Awdurdod, gyda pherthynas weithio agosach rhwng gwahanol gyfarwyddiaethau, a rhwng ysgolion a'r Awdurdod, ynghyd â chyfathrebu gwell rhwng pawb.

### **Monitro**

4.20. Roedd monitro cynnydd (gan Estyn, CLILC a SAC) yn parhau i wella yn yr Awdurdod. Erbyn Gorffennaf 2009, roedd adroddiad ail-arolygiad llawn Estyn wedi dod i law ac yn gadarnhaol ar y cyfan, gan nodi'n gyffredinol bod y cynnydd oedd yr Awdurdod wedi'i wneud yn dda, a bod atebolrwydd (a oedd o'r blaen yn wendid) bellach yn gryfder. Yn ôl darganfyddiadau'r adroddiad, roedd y cynnydd wedi bod yn ddiymdroi, gyda phobl newydd mewn swyddi uchel yn gyrru'r gwelliannau.

4.21. Yn fyr, mae yna ystod o weithgareddau a digwyddiadau o 2007 ymlaen a ddylanwadodd ar gynnydd yn yr Awdurdod. Crynhoir y rhain yn y ffigur canlynol.

**Ffigur 1 Ffactorau'n dylanwadu ar wella**





## **5. Effeithiau / Dylanwadau**

5.1. Mae sefydlu beth yw effaith gyffredinol y Bwrdd Adfer ar gynnydd Sir Ddinbych yn go anodd, yn bennaf oherwydd nad oes unrhyw amgylchiadau 'gwrth-ffeithiol' i gymharu - mewn geiriau eraill nid yw'n bosibl cymharu'r canlyniadau ar gyfer Sir Ddinbych gyda Bwrdd Adfer yn ei le â'r canlyniadau yn Sir Ddinbych heb Fwrdd Adfer yn ei le. Her bellach yw ynysu effaith y Bwrdd Adfer o effaith gweithgareddau eraill a drefnwyd i sicrhau'r gwelliannau a ddisgrifir yn y bennod flaenorol – yn benodol yr uwch-benodiadau newydd, ad-drefnu darpariaeth, ail-arolygiadau ac ymweliadau monitro Estyn, gwaith Bwrdd Moderneiddio Addysg Sir Ddinbych ei hun, cymorth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac ati.

### **Mesur a diffinio'r effeithiau**

5.2. Yr hyn sy'n glir o'r dystiolaeth yw bod cyflymdra a sgôp y newid o fewn yr Awdurdod wedi bod yn sylweddol o fewn cyfnod o amser cymharol fyr. Yn hyn o beth, teimlai'r ymatebwyr i gyd fod y Bwrdd wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at adferiad yr Awdurdod tra'n cydnabod, ar y cyfan, ei bod yn amhosibl nodi pa effaith neu effeithiau uniongyrchol oedd y Bwrdd wedi'i gael ar gynnydd – a oedd yn ymddangos i fod yn bennaf gysylltiedig â newidiadau mewn arweinyddiaeth wleidyddol a phenodiadau allweddol yn y Cyngor, ynghyd â modelau gwell o ddarparu gwasanaeth, cyfathrebu a pherthynas well a diwylliant mwy cadarnhaol.

5.3. Fodd bynnag, roedd yr ymchwiler wedi tynnu sylw at agweddau ar effaith y Bwrdd. Mewn rhai achosion, dim ond aelodau'r Bwrdd oedd wedi tynnu sylw at y rhain, ond mewn achosion eraill roedd ystod ehangach o randdeiliaid wedi eu nodi. Crynhoir y rhain isod.

## **Effaith gyffredinol**

- 5.4. Roedd un o effeithiau mwyaf a chliraf y Bwrdd yn ymwneud â'i bresenoldeb, yn fwy nag unrhyw swyddogaeth neu weithgaredd penodol a gyflawnodd. Yr oedd pawb bron yn cytuno bod bodolaeth y Bwrdd yn dangos bod y trafferthion yn narpariaeth addysg Sir Ddinbych yn cael eu cydnabod a bod yna ymrwymiad difrifol ar lefel uchel i wella'r sefyllfa. Ymhlith aelodau'r Bwrdd, y farn yn gyffredinol oedd ei bod yn anodd ynysu neu fesur effaith y Bwrdd ar Sir Ddinbych, ond bod ei bresenoldeb a'u rhan yn y materion dan sylw wedi cael dylanwad. Dywedodd un aelod o'r Bwrdd bod y ffaith eu bod yno'n bresennol, yn holi, manylu, herio ac yn rhoi ffocws parhaus i Sir Ddinbych yn cael effaith.
- 5.5. Yn allanol, y farn yn gyffredinol oedd bod y Bwrdd yn cyflawni swyddogaeth gefnogol drwy gadw 'briff gwyllo ar berfformiad a chynnydd yr Awdurdod wrth iddo weithio'n galed i wella. Teimlai rhai y tu allan i'r Awdurdod bod y pwysau parhaus ar yr Awdurdod drwy gyfarfodydd rheolaidd, gofynion i adrodd yn ôl, craffu ar gynlluniau gweithredu ac ati yn dal swyddogol yn atebol wrth iddynt geisio gweithredu'r argymhellion yn adroddiadau arolygu Estyn.

## **Meysydd dylanwad eraill gan y Bwrdd**

### *Ffocws a momentwm*

- 5.6. Teimlai'r Bwrdd a'r Awdurdod bod y craffu oedd yn cael ei wneud gan y Bwrdd yn helpu Sir Ddinbych i gadw ei ffocws ar wella a bod y momentwm hwnnw'n cael ei gynnal. Un o'r prif bethau oedd yn gyrru hyn oedd y cyfarfodydd deufisol, lle oedd disgwyl i Sir Ddinbych adrodd ar ba gamau a gymerwyd, cynnydd a wnaed, ac yn y blaen. Roedd swyddogion ac aelodau Sir Ddinbych yn ymwybodol iawn o hyn gan felly sicrhau eu bod bob amser wedi paratoi'n llawn ac ym meddiant y dystiolaeth ategol briodol – nid oedd unrhyw sgôp ar gyfer 'llithriad'.

### *Cytundebau partneriaeth*

5.7. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol lunio Cytundeb Partneriaeth yn disgrifio sut fydd yn gweithio gydag ysgolion. Pan adolygiad Cytundeb Partneriaeth Sir Ddinbych i ddechrau, teimlai'r Bwrdd fod gormod o bwyslais ar gyfrifoldeb yr Awdurdod ac nad oedd yn ddigon clir o ran beth oedd y gofynion ar yr ysgolion. Roedd yr Awdurdod yn cydnabod hyn a chafodd y ddogfen yna ei hadolygu a'i diwygio.

### *Y berthynas rhwng addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol*

5.8. Roedd pawb yn cydnabod bod y berthynas rhwng y gwasanaethau addysg a chymdeithasol yn un wael – roedd y datblygiadau yn Hyfrydle fel a ddisgrifiwyd uchod wedi amlygu hyn yn glir. Cafodd arbenigedd ar y Bwrdd i helpu Sir Ddinbych i wneud gwelliannau yn y maes hwn ei chryfhau drwy benodi aelod ychwanegol gyda gwybodaeth arbenigol i ymuno â'r Bwrdd.

### *Hyfforddiant rheoli ac arweinyddiaeth*

5.9. Roedd y Bwrdd yn cydnabod bod yna ddiffyg hyfforddiant boddhaol ar lefel rheolwyr ac arweinyddiaeth o fewn yr AALI (er enghraifft, i lywodraethwyr ac uwch-dimau arweinyddiaeth yn yr ysgolion). Roedd hyn hefyd wedi'i gydnabod gan yr uwch-benodiadau newydd yn yr AALI ei hun ac o ganlyniad cafodd rhaglen uwch-reoli ac arweinyddiaeth bwrpasol ei rhoi ar waith.

### *Gwella'r berthynas rhwng yr ysgolion a'r AALI*

5.10. Roedd trafferthion hanesyddol rhwng yr AALI ac ysgolion wedi cael eu nodi yn Adroddiad Arolygu Estyn yn 2007 ac yn adroddiad Cambridge Education (Estyn 2007; Cambridge Education Ltd 2007), ac wedi eu cydnabod gan Sir Ddinbych ei hun. Roedd y trafferthion yn ymwneud yn bennaf â drwgdybiaeth a chyfathrebu gwael. Awgrymodd y Bwrdd eu bod wedi annog y ddwy ochr i gael cyfarfodydd mwy effeithiol, i sefydlu

strwythurau cyfathrebu cryfach ac, yn gyffredinol, wedi hyrwyddo ymgysylltu mwy cadarnhaol rhwng y ddwy ochr. Teimlwyd fod hyn, ynghyd â'r pwyslais newydd ar weithio mewn partneriaeth wedi'i annog gan yr uwch-staff newydd, wedi cyfrannu at berthynas fwy cynhyrchiol.

#### *Cynyddu capasiti ysgolion i hunan-werthuso a gwella eu perfformiad*

5.11. Roedd tystiolaeth nad oedd rhai ysgolion yn defnyddio data i'w lawn botensial i'w helpu i nodi cryfderau a gwendidau'r ysgol. Teimlai rhai hefyd, aelodau'r Bwrdd yn bennaf, nad oedd swyddogion yr AALI yn hanesyddol wedi herio digon ar ysgolion, gyda'r farn mai'r AALI oedd yn bennaf gyfrifol am wella ysgolion ac nid yr ysgolion eu hunain. Teimlwyd fod gwendid ar lefel uwch-reolwyr ac arweinyddiaeth yn yr ysgolion yn ffactor yn hyn o beth, ac fel y soniwyd yn gynharach, roedd y Bwrdd wedi annog yr AALI i fuddsoddi mwy mewn hyfforddiant i'r uwch-arweinyddiaeth a thimau rheoli mewn ysgolion.

#### **Dylanwadau eraill ar welliannau yn Sir Ddinbych**

5.12. Yn ôl adolygiad diweddar o gymorth ac ymyriadau gan lywodraeth leol, cafwyd bod bylchau yng ngallu rheolwyr ac arweinyddion yn ffactor pwysig mewn awdurdodau lleol sy'n perfformio'n wael (Lewis et al, 2007). Fel inni grybwyll yn gynharach, roedd hyn ymddangos i fod yn wir yn achos Sir Ddinbych. Dengys yr ymchwil mai un o'r prif ffactorau i sbarduno newid a chynnal gwelliannau oedd penodi nifer o unigolion allweddol ar lefel uchel - codwyd hyn ym mhob un o'r trafodaethau gydag aelodau'r Bwrdd yn ddieithriad. Yn glir, mae ymrwymiad yr unigolion hyn, yn enwedig y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Ddysgu Gydol Oes ac Addysg, ynghyd â chryfder arweinyddiaeth parhaus Arweinydd y Cyngor, wedi bod yn gyfrwng eithriadol bwysig i gyflwyno newid yn Sir Ddinbych. Mae wedi rhoi ffocws newydd ac ymroddedig ar addysg yn y Sir ynghyd ag ymrwymadau ehangach i welliannau mewn llywodraethu corfforaethol, arweinyddiaeth a rheolaeth, cyfathrebu a diwylliant sefydliadol.

5.13. Roedd ymatebwyr ar draws yr holl grwpiau rhanddeiliaid yn cydnabod bod addysg wedi bod yn flaenoriaeth isel gan Sir Ddinbych ers blynnyddoedd lawer cyn arolygiad Estyn yn 2006. Dangoswyd y flaenoriaeth isel yma gan y lefelau isel o ariannu ar gyfer addysg ynghyd â dirywiad parhaus y berthynas weithio rhwng ysgolion a'r awdurdod. Disgrifiodd nifer o'r rhanddeiliaid sut oedd addysg wedi dod yn 'flaenoriaeth gyntaf' gan yr Awdurdod yn dilyn yr arolygiad, a dangoswyd hyn yn gryf pan benderfynodd arweinydd newydd y Cyngor ysgwyddo'r cyfrifoldeb am addysg yn y cabinet ynghyd â'i gyfrifoldebau arwain. Yn ogystal, cynyddodd yr Awdurdod ei gyllid ar gyfer addysg i helpu i wella capasiti o fewn y gyfarwyddiaeth, gan neilltuo arian yn un swydd. Roedd y ffaith bod pawb yn cydnabod bod angen gwella, ynghyd â'r capasiti mwy i wneud gwelliannau, yn amlwg yn allweddol.

## 6. Gwreiddio a chynnal newid

- 6.1 Mae'r adran yma'n ystyried i ba raddau fedrodd y Bwrdd ddylanwadu ar welliannau cynaliadwy o fewn yr AALI. Fodd bynnag, mae'n dechrau drwy amlinellu strategaeth ymadael y Bwrdd.
- 6.2 Pan gyhoeddodd y Gweinidog y byddai'n sefydlu'r Bwrdd (ar ddechrau 2008), y bwriad oedd y byddai'n rhedeg rhwng 12 a 18 mis ac yn cael ei adolygu bryd hynny. Yn y gwanwyn 2008, penderfynwyd ymestyn oes y Bwrdd am 12 mis arall (eto i'w adolygu ar ddiwedd y cyfnod). Peidiodd y Bwrdd â bod ddiwedd gwanwyn 2010.
- 6.3 Y Gweinidog o hyd oedd i benderfynu a fyddai'r Bwrdd yn dod i ben neu'n parhau. Nid oedd gan y Bwrdd ei hun fawr ddim dylanwad dros hyn, heblaw drwy adrodd yn rheolaidd i'r Gweinidog ar gynnydd yr Awdurdod. Roedd hyn yn awgrymu, er y cynnydd oedd yn cael ei wneud gan yr Awdurdod, bod angen cael rhyw fath o gymorth a monitro yn ei le ar ôl Mawrth 2009 (dyddiad yr ail-arolygiad) i sicrhau atgyfnerthu a chynaliadwyedd. Er bod un neu ddau o aelodau'r Bwrdd wedi eu synnu i ddechrau gyda'r penderfyniad i ymestyn oes y Bwrdd, teimlwyd fod hyn mewn gwirionedd yn taflu ail rwyd ddiogelwch er mwyn rhoi mwy o amser i sicrhau bod y cynnydd da yn parhau a bod craffu parhaus o'r cynnydd hwnnw'n digwydd.
- 6.4 Fodd bynnag, teimlwyd bod y ffaith nad oedd gan y Bwrdd strategaeth ymadael glir yn un o wendidau'r ymyriad. O ganlyniad, gallai aelodau'r Bwrdd a swyddogion yr Awdurdod ond 'dyfalu' pryd fyddai'r Bwrdd yn dod i ben. Teimlwyd fod yr Awdurdod wedi disgwyl i'r Bwrdd ddod i ben unwaith oedd arolygiad cadarnhaol gan Estyn wedi'i gwblhau, tra oedd aelodau'r Bwrdd wedi trafod bod angen i'r Gweinidog gael ei bodloni bod y gwelliannau wedi gwreiddio a'u bod yn gynaliadwy cyn dirwyn y Bwrdd i ben. Dangosodd yr ail-arolygiad gan Estyn ym mis Mawrth 2009 (Estyn 2009) welliannau sylweddol yn y ffordd oedd yr AALI yn cael ei redeg.

Fodd bynnag, roedd elfen o ansicrwydd yn codi o ddau benodiad newydd i ddwy swydd bwysig (y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes) a'u cyfraniad yn y tymor hirach at welliannau llywodraethu corfforaethol. Felly, teimlai'r Awdurdod yn siomedig gyda phenderfyniad y Gweinidog i gadw'r Bwrdd yn dilyn yr adroddiad hwn, oherwydd teimlai'r Sir fod y cynnydd a wnaeth erbyn hynny yn sylweddol a chynaliadwy, tra teimlai'r Bwrdd fod y penderfyniad yn un priodol i sicrhau bod y newidiadau *yn cael* eu gwreiddio.

- 6.5 Teimlai eraill – yn enwedig aelodau'r Bwrdd – fod angen i ddangosyddion gwella eraill fel canlyniadau arholiad, yn ogystal ag arolygiad Estyn o ysgolion ac addysg, gael eu hystyried dros y tymor hirach (hynny yw dros flynyddoedd lawer) i asesu a oedd y gwelliannau yn yr Awdurdod yn gynaliadwy, oherwydd ar y pryd dim ond un set o arholiadau oedd wedi eu sefyll gyda chanlyniadau wedi eu cyhoeddi. Teimlwyd felly, oherwydd natur y cylch blynyddoedd academaidd, bod angen ymestyn oes y Bwrdd (gyda rhai o'r Bwrdd a'r Awdurdod yn awgrymu y gallai fod yn syniad da cael y Bwrdd yn ei le am *dair* set o ganlyniadau arholiad).
- 6.6 Fodd bynnag, roedd pawb yn derbyn (gan gynnwys Estyn a SAC) bod yr Awdurdod wedi cymryd camau sylweddol i wella (gweler Pennod 4). Y consensws oedd bod y seilwaith bellach yn ddigon cryf i wrthsefyll unrhyw 'lithriad' mewn cynnydd ac nad oedd angen unrhyw fonitro manwl pellach. Ymhlith hyn oedd cydnabod, fodd bynnag, bod llawer yn dibynnu ar ffactorau fel uwch-reolwyr ac arweinyddiaeth strategol (gan gynnwys swyddi allweddol fel y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ac Arweinydd y Cyngor), cyllid ar gyfer addysg, a newid gwleidyddol.
- 6.7 Ar 24 Mai 2010, cafodd y Cyfarwyddyd bod Cyngor Sir Ddinbych yn cydweithredu gyda'r Bwrdd Adfer ei ddiddymu gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ac nad oedd angen unrhyw gyfarfodydd pellach (Cyfarwyddyd Gweinidogol, 2010).

## **7. Trosolwg – y Bwrdd fel ymyriad adferol**

### **Effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd o ran cefnogi newid**

- 7.1. Y consensws cyffredinol ymhlith ymatebwyr oedd bod y Bwrdd, i raddau mwy neu lai gan ddibynnu ar bersectif pobl, wedi gweithredu fel impetws i newid, ac wedi cefnogi'r camau oedd Sir Ddinbych yn eu cymryd i wella'r sefyllfa iddo ganfod ei hun ynddi yn 2007. Roedd hyn yn wir ym mlwyddyn gyntaf ei weithrediad yn enwedig. Fodd bynnag, roedd pawb yn cydnabod bod yna weithgareddau a digwyddiadau eraill o 2007 ymlaen a ddylanwadodd ar y cynnydd a'r adferiad yn Sir Ddinbych (gweler Pennod 4).
- 7.2. Mae'n glir, fodd bynnag, heb y newidiadau allweddol mewn arweinyddiaeth a rheolaeth ar lefel uwch yn yr Awdurdod, y byddai'r cynnydd wedi bod yn llawer arafach (os byddai wedi digwydd o gwbl). Pe bai hyn wedi digwydd, mae'n debygol y byddai'r Bwrdd, ar ôl hysbysu'r Gweinidog ynghylch y diffyg cynnydd, wedi bod yn gatalydd ar gyfer ymyriadau eraill i sbarduno newid.

### **Gwerth am arian**

- 7.3. Un o'r prif ystyriaethau wrth gyflwyno ymyriad i gyflwyno newid yw'r gost yn ymyl y manteision. Yn ôl y ffigurau gan APADGOS, cyfanswm amcan-gost Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol Sir Ddinbych dros ddwy flynedd ei fodolaeth oedd rhwng £80,000 a £100,000. Mae hyn yn cynnwys tua £55,000 mewn ffioedd, teithio a chynhaliaeth i naw aelod o'r Bwrdd i fynychu 14 o gyfarfodydd, gyda'r gweddill yn talu am gostau staffio Llywodraeth y Cynulliad. Y gost gyfartalog i gynnal bob cyfarfod, felly, oedd ychydig o dan £4,000 (neu ychydig dros £400 i bob un yn mynychu).



7.4. O'i gymharu â chost opsiynau eraill (er enghraifft, penodi ymgynghorwyr allanol neu drosglwyddo'r awenau i awdurdod lleol arall, gweler isod), byddai hyn yn ymddangos i fod yn ffordd gymharol effeithlon o gefnogi newid ar y raddfa a oedd yn ofynnol. Er nad oes unrhyw sefyllfa wrth-ffeithiol fel y soniwyd yn gynharach, mae'n bosibl y gallai'r gost o *beidio* â chael ymyriad fod wedi bod yn llawer uwch.

### **Trosglwyddo 'model' y bwrdd adfer**

7.5. Un o'r ystyriaethau ar gyfer gwerthuso oedd i ba raddau y gallai'r model ymyrryd a ddefnyddiwyd yn Sir Ddinbych i gefnogi newid gael ei drosglwyddo i gyd-destunau eraill. Roedd model y bwrdd adfer wedi cael ei ddefnyddio mewn amrediad o sefyllfaoedd yn Lloegr (yn fwy diweddar yng Nghyngor Bwrdeistref Metropolitan Doncaster), er i bob golwg nid oes fawr o dystiolaeth o ran pa mor effeithiol neu faint o effaith a gawsant. Fodd bynnag, dyma'r tro cyntaf i fwrdd o'r fath gael ei sefydlu yng Nghymru. Ac ers sefydlu'r Bwrdd yn Sir Ddinbych, mae dau Fwrdd pellach wedi cael eu sefydlu yng Nghymru – yn un Abertawe<sup>2</sup> ac un yn Ynys Môn<sup>3</sup> - er nad ydynt yn ymwneud yn benodol â darparu addysg.

7.6. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn y gellid trosglwyddo'r model a ddefnyddiwyd yn Sir Ddinbych yn llwyddiannus i sefyllfaoedd eraill - er bod nifer o nodweddion ac amgylcheddau yr oedd angen eu cael i Fwrdd weithio'n llwyddiannus a chael dylanwad. Mae'r rhain yn ymwneud â:

- gweithredu mewn dull agored a thryloyw o'r dechrau, gan nodi'n glir i'r holl randdeiliaid beth fydd Cylch Gorchwyl y Bwrdd, y

---

<sup>2</sup> Sefydlwyd Bwrdd Ymyriad Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe yn 2009 ar gyfarwyddyd Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, yn dilyn darganfyddiadau adroddiad arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ynghylch y gwasanaethau cymdeithasol i blant yn Abertawe. Yn ddiweddar, penderfynwyd ymestyn oes y Bwrdd tan fis Hydref 2010.

<sup>3</sup> Yn 2009, sefydlodd Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol bryd hynny, Fwrdd Adfer ar gyfer Ynys Môn, ar ôl derbyn adroddiad hynod feirniadol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar lywodraethu corfforaethol gan y Cyngor yn Ynys Môn. Cylch gwaith y Bwrdd yw cynghori'r Gweinidog ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor gyda mynd i'r afael â'r 'gwendid corfforaethol difrifol' a ddarganfuwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

galwadau tebygol (er enghraifft, am wybodaeth neu ddata) ac i rannu dogfennau ac adroddiadau;

- gweithredu mewn ffordd ymatebol a hyblyg, fel pan fydd materion newydd yn codi (fel yn achos Hyfrydle), bod gan y Bwrdd ddigon o hyblygrwydd i ymateb yn briodol (a chael gafael ar gyngor arbenigol lle bo angen) ac i addasu blaenoriaethau yng ngoleuni hynny.
- ‘modus operandi’ cadarnhaol gan bob un o'r chwaraewyr, gan weld y Bwrdd fel ffynhonnell gymorth ac arweiniad yn hytrach na fel corff cosbi neu ddarogan gwae efallai – mae angen yr olwg gadarnhaol yma ar aelodau'r Bwrdd a'r Awdurdod y bydd y Bwrdd yn ei graffu;
- cyfranogi – rhaid i unigolion gymryd rhan lawn yn y broses drwy gyfarfodydd, deialog ac ati, yn lle bod yn dawedog. Byddai Bwrdd gyda dull cyfranogol yn un lle byddai cwestiynau, trafodaethau a deialog yn cael eu hannog yn lle eu mygu; ac
- arbenigedd ac enw da – er mwyn i Fwrdd fod yn gredadwy, rhaid i'w aelodau feddu ar y lefel uchel briodol o arbenigedd ac enw da.

Dangosir y pwyntiau hyn yn y diagram canlynol.

**Ffigur 2 Nodweddion Bwrdd ymyrryd llwyddiannus**



## Dulliau eraill

- 7.7. Mae nifer o ddulliau eraill y gellid, mewn theori, eu cyflwyno mewn sefyllfaoedd fel yr un a wynebodd Sir Ddinbych. Mewn araith ym mis Medi 2007, roedd y Gweinidog wedi gwneud hyn yn glir iawn:

Byddaf yn defnyddio fy mhŵer i'w gyfarwyddo (Awdurdod Sir Ddinbych) os na fydd yn gafael yn y sefyllfa'n sydyn. Medraf ddefnyddio fy mhwerau cyfarwyddo mewn ystod o ffyrdd, o gyfarwyddo gweithredu i roi sylw i faterion penodol drwy ofyn bod awdurdod yn trosglwyddo'r awenau o ran rhedeg ei wasanaeth addysg i ddarparwr arall, allanol (Hutt, 2007).

Gofynnwyd i ymatebwyr ystyried pa mor hyfyw a phriodol oedd y rhain.

### *Cwmni ymgynghorwyr rheoli allanol*

- 7.8. Un opsiwn fyddai dod â thîm o ymgynghorwyr rheoli allanol i AALI Sir Ddinbych i weithio'n uniongyrchol gyda swyddogion ac aelodau i gyflwyno gwelliannau.
- 7.9. Mae'r dull hwn wedi'i ddefnyddio mewn rhannau eraill o'r DU. Er enghraifft yn Ebrill 2001, sefydlodd AALI Cyngor Haringey bartneriaeth strategol gyda chwmni Capita Strategic Education Services<sup>4</sup>, a oedd â briff i ddarparu rheolaeth strategol o wasanaethau addysgol, darparu uwch-dîm rheoli profiadol a chreu fframwaith modern ar gyfer y berthynas rhwng ysgolion a'r AALI (a ystyriwyd i fod yn arbennig o wael). Cafodd dull tebyg ei fabwysiadu yn Bradford yn 2001 pan lofnododd Serco contract deng mlynedd gyda Chyngor Bradford i ddisodli nifer o swyddogaethau'r AALI a oedd yn methu.<sup>5</sup>

---

<sup>4</sup> Gweler

[http://www.capita.co.uk/media/Pages/Haringey\\_LEA\\_strategic\\_partnership\\_success.aspx](http://www.capita.co.uk/media/Pages/Haringey_LEA_strategic_partnership_success.aspx)

<sup>5</sup> Gweler

<http://www.educationbradford.com/%21+About+Education+in+Bradford+/About+Education+in+Bradford.htm>

7.10. Fodd bynnag, teimlai'r ymatebwyr na fyddai'r dull hwn wedi bod yn effeithiol yn Sir Ddinbych am y rhesymau canlynol:

- fel ymyriad, roedd yn debygol o fod yn opsiwn drud iawn;
- Roedd yn annhebygol y byddai gan gwmni allanol (preifat) yr ehangder gwybodaeth oedd angen ei gael, na chwaith y ddealltwriaeth ddofn o gyd-destun Cymru ac o'r iaith Gymraeg;
- byddai'n anfon y neges 'anghywir' am gapasiti mewnol Sir Ddinbych i wella;
- byddai'n cael ei weld fel ymyriad llawer mwy 'gosodedig' a 'chymarwyddol' yn hytrach na bwrdd adfer, a theimlwyd y byddai'n ddull llai derbyniol; a
- byddai'n ateb tymor byr a allai feithrin gallu yn y tymor byr ond na fyddai'n gynaliadwy dros y tymor hirach.

#### *Trosglwyddo cyfrifoldebau i AALI cyfagos*

7.11. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu trosglwyddo'r prif gyfrifoldebau neu wasanaethau a oedd yn 'methu' i AALI cyfagos.

7.12. Teimlwyd y byddai'r opsiwn hwn hefyd yn amhriodol ac nid oedd unrhyw un o'r ymatebwyr o'i blaid. Nid oedd y rhesymau dros wrthod yr opsiwn hwn yn dra gwahanol i'r rhai uchod ar gyfer ymgynghorwyr allanol – costau, negeseuon corfforaethol ayb. Roedd y rhesymau eraill yn cynnwys:

- diffyg capasiti / adnoddau mewn Awdurdodau Addysg Lleol cyfagos;
- capasiti ac arbenigedd ar drai yn yr AALI presennol (na fyddai'n briodol dros y tymor hirach); a
- cymhlethdodau sefydliadol a strwythurol aruthrol o ran newid y cyfrifoldeb dros rai rhannau o'r AALI ac nid eraill (nid lleiaf Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth)).

### *Rôl fwy i Estyn*

7.13. Roedd barn ymhlith rhai ymatebwyr bod peth dyblygu rhwng rôl y Bwrdd a rôl Estyn. Ystyriwyd hefyd y potensial i Estyn gael rôl fwy yn adferiad Sir Ddinbych – drwy gymorth dwys mwy parhaus, gan gynnwys rhoi cyngor ar sut i fynd i'r afael â meysydd penodol lle oedd angen gwella. Wedi dweud hynny, ar y cyfan teimlwyd fod arbenigedd Estyn yn canolbwyntio (fel y dylai) ar addysg, tra bod ffocws y Bwrdd yn ymestyn y tu hwnt i hynny i gynnwys y berthynas gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, cyfathrebu ac yn y blaen; ac, fel i rai nodi (o fewn a'r tu allan i'r Awdurdod), i roi rôl fwy i Estyn gyda'r gwelliannau, byddai angen newid yn sylfaenol sut oedd yr arolygiaeth yn gweithredu.

### *Bwrdd adfer gyda mwy o bwerau*

7.14. Roedd Cylch Gorchwyl y Bwrdd yn achos Sir Ddinbych yn cyfyngu ei rôl i un fonitro ar y ddaear, ac yna i adrodd yn ôl a chynghori'r Gweinidog. Nid oedd yn fwrdd gweithredol o gwbl ac nid oedd ganddo unrhyw bŵer dros yr Awdurdod i'w gymell i gymryd camau penodol. Gallai model arall fod wedi rhoi'r pwerau hyn i fwrdd. Eto, ychydig iawn o gefnogaeth oedd i hyn. Teimlwyd: (1) bod y model gwirioneddol gyda'i linell adrodd uniongyrchol i'r Gweinidog yn ddigon i fod wedi ysgogi ymyriad uniongyrchol cryfach pe bai angen gwneud hynny; (2) pe bai'r Bwrdd wedi cael y pŵer hwn, gallai hyn fod wedi cael effaith negyddol ar y berthynas rhwng y Bwrdd a'r Awdurdod; a (3) byddai wedi newid cymeriad yr ymyriad gwirioneddol yn sylfaenol - o fod yn un a oedd yn monitro gweithrediad yr AALI i fod yn un lle byddai'n asiant gweithredol ar gyfer gwelliannau, gan rannu yn y cyfrifoldeb dros sicrhau bod y gwelliannau'n digwydd neu beidio.

### *Gwneud dim*

7.15. Opsiwn arall fyddai 'gwneud dim', ond ni chafodd hyn ei ystyried o ddifrif. Teimlai aelodau'r Bwrdd y gallai'r opsiwn hwn yn enwedig fod yn strategaeth risg uchel yn wleidyddol – pe na bai'r penodiadau newydd yn

Sir Ddinbych wedi gweithio cystal ag y gwnaethant, gallai'r sefyllfa fod wedi mynd y tu hwnt i'w hadfer – gyda chanlyniadau pell-gyrhaeddol. Yn y bôn, opsiwn theoretig oedd yr opsiwn 'gwneud dim' i'r Gweinidog, nid posibilrwydd yn y byd sydd ohono heddiw.

7.16. Yn gryno, er bod nifer o ddulliau eraill y gallai'r Gweinidog fod wedi eu defnyddio i ymyrryd yn y sefyllfa anodd yn Sir Ddinbych, ymddengys mai model y bwrdd adfer, gyda 'llinell' uniongyrchol i'r Gweinidog, oedd yr un mwyaf addas a chost-ffeithiol. O ran ei drosglwyddo i sefyllfaoedd neu ardaloedd eraill, ymddengys y byddai'r dull hwn yn gweithio orau lle mae pawb yn yr awdurdod yn cydnabod beth yw'r problemau a'r meysydd gwendid, ynghyd â pharodrwydd ac ymrwymiad i wella, uwch-dîm rheoli effeithiol a thîm arweinyddiaeth i wneud y newidiadau. Mewn achosion lle ymddengys nad oes gan yr awdurdod ei hun y capasiti mewnol i wneud newidiadau a / neu lle mae'n methu â chydabod pa mor ddifrifol yw'r gwendidau a nodwyd, efallai mai nid bwrdd adfer fyddai'r dull mwyaf effeithiol.

## **8. Trosolwg a gwersi a ddysgwyd**

- 8.1. Mae'r adran olaf yma'n rhoi trosolwg ar y prif ddarganfyddiadau o ran pa mor effeithiol oedd Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol Sir Ddinbych, gan dynnu sylw at yr arferion da a'r gwersi a ddysgwyd i helpu i oleuo penderfyniadau ynghylch defnyddio bwrdd adfer mewn sefyllfaoedd eraill.
- 8.2. Fel yr ydym wedi'i drafod yn yr adroddiad, mae yna amrywiol ddulliau o helpu awdurdod fel Sir Ddinbych i wella, yn fewnol (ad-drefnu, staff newydd, newidiadau cyllid, ail-flaenoriaethu ac ati) ac yn allanol (craffu agos, arolygiadau, cymorth ac arbenigedd allanol ac yn y blaen). Mae'r ymchwil wedi dangos, fel un arf o gist o amrywiol arfau, bod y Bwrdd Adfer a sefydlwyd gan y Gweinidog wedi bod yn ddull gwerthfawr a helpodd i symud yr Awdurdod ymlaen drwy ddarparu craffu, atebolrwydd allanol ynghyd â monitro ac adolygu cynnydd yn rheolaidd; a thrwy bwysleisio na ellid parhau gyda'r sefyllfa yn Sir Ddinbych fel yr ydoedd.
- 8.3. Fodd bynnag, er mwyn gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd ac effaith Bwrdd o'r fath, rhaid ystyried yr anghenion canlynol.

### **Arbenigedd Aelodau'r Bwrdd**

- 8.4. Roedd arbenigedd cydnabyddedig aelodau'r Bwrdd yn golygu eu bod yn cael eu gweld fel unigolion credadwy a oedd yn deall y cyd-destun. Yn enwedig, roedd cael unigolion gydag arbenigedd a allai 'adlewyrchu' yn effeithiol rolau'r unigolion allweddol yn Sir Ddinbych (er enghraifft, cyn Brif Weithredwr AALI, cyn Gyfarwyddwr Addysg, Penaethiaid presennol a blaenorol, arolygwyr ysgolion blaenorol) yn bwysig. Roedd hyn yn sicrhau bod y Bwrdd nid yn unig yn gallu deall rolau ac ochr weithredol yr Awdurdod yn llawn ond hefyd yn golygu bod gan swyddogion Sir Ddinbych ffydd yn y Bwrdd.

## **Annibyniaeth Aelodau'r Bwrdd**

8.5. Dylid ystyried pob un o aelodau'r Bwrdd i fod yn annibynnol, heb unrhyw fuddiannau manteisiol. Mae hyn yn bwysig o ran pa mor gredadwy yr edrychir arnynt yn allanol, a hefyd o ran gallu canolbwyntio ar weithgareddau a chynnydd yn ddiuedd. Afraid dweud bod cyfrinachedd priodol cynnwys y trafodaethau, y cyfarfodydd a'r dogfennau yn hollbwysig.

## **Cydnabod yr ymrwymiad sy'n ofynnol gan aelodau'r Bwrdd**

8.6. Nid oedd yr ymrwymiad a oedd yn ofynnol gan aelodau'r Bwrdd yn fach - cyfarfodydd deufisol yn para drwy'r dydd, ynghyd â mynychu amrywiol gyfarfodydd craffu a chlwstwr a darllen amryw o wahanol adroddiadau, cynlluniau gweithredu a dogfennau cysylltiedig eraill. Yn enwedig, i aelodau'r Bwrdd a oedd dal yn gyflogedig llawn amser (roedd rhai wedi ymddeol neu led-ymddeol, neu'n hunan-gyflogedig) gallai hyn wneud galwadau trwm ar eu hamser. Cafodd holl aelodau'r Bwrdd eu digolledu'n angenrheidiol am eu hamser a'u treuliau cysylltiedig, ond ar adegau roedd aelod wedi'i chael yn anodd ymrwymo i'r Bwrdd oherwydd blaenoriaethau taer eraill, yn enwedig ym misoedd cyntaf bodolaeth y Bwrdd, pan oedd ei waith yn fwyaf dwys. Felly dylid rhoi gwybod i aelodau'r Bwrdd yn glir beth fydd yr ymrwymiad tebygol cyn iddynt gytuno i fod yn aelod.

## **Eglurder ar y dechrau o ran parhad, a strategaeth ymadael, ar gyfer y Bwrdd**

8.7. Mae'n bwysig bod yna gymaint o eglurder â phosibl o ran beth fydd *parhad*, a'r *strategaeth ymadael*, ar gyfer y Bwrdd. Gallai hyn fod braidd yn anodd. Yn achos Sir Ddinbych, roedd y Cyngor Sir ychydig yn bryderus bod cyfnod gweithredol gwreiddiol y Bwrdd wedi'i ymestyn. O ochr y Gweinidog, roedd angen i'r Bwrdd gario ymlaen hyd nes bo'r adferiad cynaliadwy yn sicr. Wrth reswm, ni ellid fod wedi diffinio hyn



ymlaen llaw. Roedd y Cylch Gorchwyl yn cyfarwyddo'r Bwrdd i barhau hyd nes oedd Estyn yn ail-arolygu, wedi'i ddilyn gan benderfyniad Gweinidogol ynghylch a ddylai'r Bwrdd gario ymlaen neu beidio. Gallai'r Sir fod wedi cymryd hyn i olygu bod tystiolaeth o gynnydd sylweddol yn arwain at ddiddymu'r Bwrdd. Mewn achosion cymharol, gallai fod yn ddefnyddiol nodi'n gwbl glir beth ddigwyddodd yn Sir Ddinbych: bod angen dangos nid yn unig fod y sefyllfa wedi gwella ond bod y gwelliannau'n gynaliadwy - ffactor lle oedd angen cyfnod craffu hirach.

- 8.8. Efallai, hefyd, y gallai fod sgôp i leihau maint y Bwrdd *tuag at ddiwedd ei oes* - gallai aelodau craidd neu fwrdd sgerbwd ddarparu craffu 'hyd braich' parhaus ond ysgafnach i sicrhau bod y newidiadau'n cael eu gwreiddio.

### **Eglurder ynghylch rôl y Bwrdd**

- 8.9. Felly hefyd, dylai *rôl y Bwrdd* fod mor glir â phosibl. Yn achos Sir Ddinbych, roedd y Gweinidog yn glir mai rôl y Bwrdd oedd rhoi adborth ar y cynnydd a chyngor i'r Gweinidog. Byddai Estyn yn rhoi adborth o'r ymweliadau monitro, ond nid cyngor. Fodd bynnag, ar y ddaear, nid oedd rôl y Bwrdd a'i arwahanwydd i rôl Estyn, wedi cael ei deall yn llwyr. Yn amlwg, drwy ei bresenoldeb yn unig, roedd y Bwrdd yn sbardun ar gyfer newid ac yn rhoi impetws i'r broses adfer; ond mewn rhai achosion penodol, defnyddiodd y Bwrdd ei arbenigedd a'i brofiad i annog yr Awdurdod mewn ambell i gyfeiriad. Nid oedd y ffin rhwng monitro a chyfrannu at y broses adfer efallai wedi'i chynnal bob amser ac nid oedd yr holl chwaraewyr yn y broses adfer yn gwbl sicr bod rôl y Bwrdd a rôl Estyn yn amlwg wahanol neu ar wahân.
- 8.10. Yn gysylltiedig â hyn mae rôl swyddogion APADGOS a fu'n gweithio'n agos gyda'r Bwrdd, ac ymddengys nad oedd hon bob amser yn glir i'r Awdurdod. Mae angen diffinio eu rôl ar y dechrau – eu bod yno i roi arweiniad ac i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw broblemau yn ogystal â darparu swyddogaeth ysgrifenyddol – fel bod yna linellau atebolrwydd ac adrodd clir.

8.11. Yn ogystal, roedd yn glir bod angen egluro'n glir beth oedd gwahanol rolau'r Bwrdd ac Estyn, efallai drwy sicrhau bod y gofynion gan Estyn a'r Bwrdd (er enghraifft, gofynion i ddarparu gwybodaeth ac amseriad y rhain) yn cael eu cyfuno i osgoi unrhyw ddyblygu ymdrech. Mae angen egluro rôl Estyn, fel un 'hyd braich', yn glir.

### **Cylch Gorchwyl a Ffocws**

8.12. Er ei bod yn bwysig bod y Cylch Gorchwyl wedi'i ddiffinio'n ddigon clir i roi cyfeiriad yn fras a fframwaith ar gyfer gweithredu, mae yna risg gynhenid mewn ymyriad fel bod bwrdd adfer yn canolbwyntio'n ormodol ar un maes, a allai yna fynd â'i feddwl oddi ar yr angen i roi sylw i faterion taer eraill sy'n codi. Dylid cyfeirio at ac adolygu'r Cylch Gorchwyl drwy gydol gweithrediad y Bwrdd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r sefyllfa(oedd) y craffir arnynt, ac i sicrhau nad yw'r Bwrdd yn gwyro'n ddiangen o'r materion craidd. Lle mae angen newid y Cylch Gorchwyl, bydd yn amlwg angen i hyn gael ei gymeradwyo ar lefel Weinidogol.

### **Ymyfarwyddo'n fuan**

8.13. Roedd cymhlethdod y problemau yn Sir Ddinbych ynghyd â'r llwyth gwybodaeth yr oedd angen i aelodau'r Bwrdd ei hennill gymaint fel y cymrodd gryn dipyn o amser ar y dechrau i'r Bwrdd ddeall yr amgylchedd. O edrych yn ôl, teimlai rhai y gallai mynychu rhai o'r cyfarfodydd 'ymylol' - cyfarfodydd clwstwr ysgolion, cyfarfodydd craffu, cyfarfodydd y bwrdd moderneiddio addysg ac ati – yn gynt yn y broses fod wedi bod yn fanteisiol i helpu aelodau'r Bwrdd i ddeall y materion a'r gweithgareddau cyfredol yn gynt. Felly hefyd, awgrymwyd oherwydd cyflymdra'r newid a'r llwyth gweithgarwch oedd yn digwydd y tu ôl i'r llenni, y gallai fod wedi bod yn fanteisiol cael rhywun, swyddog o'r llywodraeth efallai, i fynychu mwy o'r cyfarfodydd hyn ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd.

## **Gweithgareddau'r Bwrdd**

8.14. Roedd yn amlwg bod gwaith ar wahân i'r cyfarfodydd deufisol yn hollbwysig i wneud y Bwrdd yn fwy effeithiol – mynychu cyfarfodydd ac arsylwi ar weithgareddau mewn cyfarfodydd yn Sir Ddinbych a chynnal deialog gyda swyddogion (dros y ffôn a wyneb yn wyneb). Er na amlinellwyd hynny'n benodol fel un o gyfrifoldebau'r Bwrdd yn ei Gylch Gorchwyl, roedd y Bwrdd yn cydnabod yn fuan os oedd am gyflawni ei gyfrifoldebau gorau fedrai, y byddai angen gwneud gwaith rhwng y cyfarfodydd. Byddai angen i unrhyw Fwrdd Adfer yn y dyfodol sicrhau bod y mathau yma o weithgareddau hefyd yn cael eu hymgorffori er mwyn gwneud y mwyaf o gyfraniad y Bwrdd.

## **Casgliad**

8.15. Er mai rôl eglur y Bwrdd yn ei Gylch Gorchwyl oedd adrodd i a chynghori'r Gweinidog ar berfformiad gwasanaeth addysg Sir Ddinbych drwyddo draw, ei effaith ychwanegol, yn anochel, oedd rhoi cryn bwysau ar y broses adfer yn Sir Ddinbych. Roedd ei graffu manwl yn sicrhau, pe bai unrhyw duedd wedi bod o ran diffyg impetws neu ddiffyg ffocws ar flaenoriaethau brys, ar lefel arweinyddiaeth a gwleidyddol newydd y Sir neu o danynt, bod y duedd honno'n cael ei dileu. Fel y digwyddodd, pan sefydlwyd yr arweinyddiaeth newydd yn y Sir nid oedd unrhyw ddiffyg impetws - efallai mai dyna pam mai'r consensws o fewn yr Awdurdod oedd nad oedd y Bwrdd wedi cael effaith sylweddol ar gynnydd.

8.16. Er bod yna beth diffyg eglurder ar y ddaear ynghylch beth oedd swyddogaeth, parhad a gwaith y Bwrdd i fod (fel y soniwn uchod), roedd hyn efallai yn anochel o gofio bod model newydd ar gyfer cywiro sefyllfa anodd yn cael ei gymhwyso am y tro cyntaf yng Nghymru a'i fod, beth bynnag, yn eithaf ymylol o ran effeithiolrwydd ac effaith y Bwrdd yn gyffredinol.

8.17. Er bod y broses adfer yn llwyddiannus yn y pen draw, pe na byddai wedi llwyddo byddai adborth y Bwrdd i'r Gweinidog wedi nodi hyn yn glir -

efallai yn gynt ac yn gliriach na fyddai wedi digwydd fel arall - gan roi mesurau eraill ar waith yn ddigon buan. Felly, roedd gan y Bwrdd swyddogaeth 'wrth gefn' bwysig (er yn un nad oedd angen iddo ei hymarfer fel y digwyddodd).

8.18. Llwyddodd y Bwrdd i gyflawni ei effeithiau am gost gymharol isel ac mewn ffordd a lwyddodd i gynnal didwylledd a chynaliadwyedd yr Awdurdod Addysg Lleol.

8.19. Felly, roedd Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol Sir Ddinbych yn ymyriad llwyddiannus sydd, os rhoddir sylw dyledus i'r materion a godir uchod, yn debygol o fod yn ddull gwerthfawr o gywiro achosion eraill o danberfformio gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.

## Dogfennau cyfeiriol

BBC, 2007. *Minister Acts over Schools Crisis*. Gweler [http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/north\\_east/7103831.stm](http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/north_east/7103831.stm) (mynediad 15 Mehefin 2010).

Cambridge Education, 2007. *Moderneiddio Addysg yn Sir Ddinbych*.

Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol Sir Ddinbych, 2010, *Adroddiad Terfynol*. Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mai 2010. <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/improvingschools/denbighshirerecoveryboard/finalreport/?jsessionid=JnVcMTYJyTY23yXrwrGwJfFLh1ys554MrSrTn5Q1VpQLlryXz15q!-42672990?lang=en> (mynediad 28 Medi 2010)

Estyn, 2006. *Adroddiad ar Ansawdd Gwasanaethau Ieuenctid yng Nghyngor Sir Ddinbych*. Estyn, Mai 2006. Gweler [http://www.estyn.gov.uk/inspection\\_reports/Denbighshire\\_YPP.pdf](http://www.estyn.gov.uk/inspection_reports/Denbighshire_YPP.pdf)

Estyn, 2007. *Adroddiad ar ansawdd Awdurdod Lleol Sir Ddinbych - Rheolaeth strategol, Gwella ysgolion, Hyrwyddo cynhwysiad a lles cymdeithasol ac Anghenion dysgu ychwanegol*. Estyn, Gorffennaf 2007. Gweler [http://www.estyn.gov.uk/inspection\\_reports/Denbighshire\\_Local\\_Authority\\_July\\_2007.pdf](http://www.estyn.gov.uk/inspection_reports/Denbighshire_Local_Authority_July_2007.pdf)

Estyn, 2009. *Ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Adroddiad ar ansawdd Awdurdod Lleol Sir Ddinbych*. Estyn, Mawrth 2009. Gweler [http://www.estyn.gov.uk/inspection\\_reports/denbighshire\\_local\\_authority1\\_march\\_2009.pdf](http://www.estyn.gov.uk/inspection_reports/denbighshire_local_authority1_march_2009.pdf)

Estyn, 2010. *Adroddiad Monitro Sir Ddinbych*. Ionawr 2010.


Hutt, J, 2007. *Gwasanaethau Addysg yn Sir Ddinbych – Datganiad i'r Wasg*. Gweler <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2007/250907jh/?lang=en>

Lewis, M, Phillips, W a Piercy, N, 2007. *Codifying Local Government Support and Intervention*. Ysgol Reolaeth Prifysgol Caerfaddon / Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyfarwyddyd Gweinidogol, 2010. <http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/schools/denbighshirerecoveryboard/?lang=en> (mynediad 23 Gorffennaf 2010).

Rowett, R & Associates (2008). *Management Review of Hyfrydle*. [http://www.denbighshire.gov.uk/www/cms/live/content.nsf/lookupattachments/English~DNAP-7JYEVJ/\\$File/Hyfrydle%20Investigation%20final%20report%201.1.pdf](http://www.denbighshire.gov.uk/www/cms/live/content.nsf/lookupattachments/English~DNAP-7JYEVJ/$File/Hyfrydle%20Investigation%20final%20report%201.1.pdf) (mynediad 27 Medi 2010)

Swyddfa Archwilio Cymru, 2008. *Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol: Awdurdod Sir Ddinbych*. Gweler [http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/Denbighshire\\_CC\\_Corporate\\_Governance\\_Inspection\\_eng.pdf](http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/Denbighshire_CC_Corporate_Governance_Inspection_eng.pdf)



## Atodiad A Amserlen Gweithgareddau y Bwrdd Adfer

1. Drwy archwilio cofnodion y Bwrdd ac adroddiadau'r Cadeirydd, gellir deall yn fwy manwl sut weithredodd y Bwrdd o'r cyfarfod cyntaf (31 Ionawr 2008) hyd at ei ddirwyn i ben (gwanwyn 2010).
2. Roedd y Gweinidog bryd hynny wedi mynychu'r **cyfarfod cyntaf** ac wedi cadarnhau mai ei blaenoriaethau oedd: cyrhaeddiad disgyblion yn ysgolion y Sir; ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth y gwasanaeth addysg yn y Sir; effeithiolrwydd y broses o reoli lleoedd ysgolion; cryfder a chynhyrchedd y berthynas rhwng ysgolion a'r awdurdod lleol; ac effeithiolrwydd y gwasanaethau ieuencid.
3. Yn dilyn hynny, cafodd drosolwg ar hanes, a chyd-destun, y sefyllfa bresennol ei gyflwyno. Cyflwynodd Estyn ei Adroddiad Arolygu diweddaraf ar yr Awdurdod. Roedd cyflwyniad gan Gyngor Sir Ddinbych yn cydnabod y sialensau mawr yr oedd yn eu hwynebu i weddnewid ansawdd yr addysg yn y Sir. Cytunodd y Cyngor Sir i rannu ei adroddiadau cynnydd mewnol gyda'r Bwrdd ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a oedd i ddilyn. Sefydlodd y Bwrdd drefniadau i gwrdd â phenaethiaid o'r Sir a CLILC a gofynnodd am eitemau data penodol gan swyddogion o Lywodraeth Cynulliad Cymru.
4. Erbyn **Mawrth 2008**, roedd gwybodaeth a dogfennau wedi eu darparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn a Chyngor Sir Ddinbych wedi cael eu craffu, a chyflwyniadau wedi eu derbyn gan, ynghyd a thrafodaethau wedi eu cynnal gyda swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad, Estyn, Cyngor Sir Ddinbych, swyddogion o CLILC ac ymgynghorwyr, a gyda chynrychiolwyr o Ffederasiwn Penaethiaid Sir Ddinbych.
5. Yn dilyn ail gyfarfod y Bwrdd Adfer (7 Mawrth 2008), roedd y Bwrdd yn gallu dyfarnu'n eithaf cadarnhaol bod cynnydd yn cael ei wneud gan AALI Sir Ddinbych.
6. Dywedodd y Bwrdd fod yna newid diwylliant wedi bod gan arwain at welliannau amlwg ar lefel wleidyddol a gweithredol. Roedd Arweinydd y Cyngor wedi dangos arweinyddiaeth gadarnhaol ac roedd Addysg bellach yn flaenoriaeth gyntaf gan y Cyngor. Roedd wedi gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr ac yna'r Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes dros dro i sefydlu systemau a phrosesau i sicrhau gwelliannau ar bob lefel ynghyd â gweithdrefnau i fonitro'r cynnydd oedd yn cael ei wneud. Credwyd fod gan y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes dros dro ddealltwriaeth realistig o'r sialensau yr oedd yr Awdurdod yn eu hwynebu ynghyd â'r penderfyniad i weld y Cynllun Gweithredu'n cael ei weithredu'n llwyddiannus.
7. Dywedwyd fod y Pennaeth Gwella Ysgolion dros dros wedi gwneud llawer i sefydlu'r agenda gwella ysgolion, i ddatblygu cytundeb partneriaeth gydag ysgolion ac i sefydlu trefniadau clwstwr ar gyfer ysgolion. Roedd Pennaeth Gwella Ysgolion parhaol newydd, gyda phrofiad o fod yn Arolygydd Addysg a Hyfforddiant EM ac o fod yn uwch-rheolwr mewn ysgolion, wedi'i benodi. Y penodiadau eraill a wnaed, neu oedd ar fin cael eu gwneud, bryd hynny oedd Swyddog Gwella Ysgolion ar gyfer Ysgolion Cynradd, Swyddog Cyngori Ysgolion Uwchradd a Chynghorwr Rhifedd.
8. Cytunwyd ar gynnydd sylweddol o £1.75m ar gyfer y gyllideb addysg ar gyfer 2008/09 gan fynd â chyfanswm y dyraniad addysg dros lefel yr Asesiad o Wariant Safonol. Hefyd, roedd rhywfaint o arian ychwanegol wedi cael ei sianelu ar gyfer addysg yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol honno. Roedd hyn wedi'i dargedu'n bennaf at wella canlyniadau TGAU C/D. Fodd bynnag, roedd penaethiaid wedi lleisio'r farn bod angen mwy o eglurder ynghylch sut oedd y fformiwla ariannu'n gweithio a pha gyllid oedd yn cael ei ddal yn ganolog.

9. Roedd yr Awdurdod wedi rhoi system yn ei lle i fesur cynnydd gyda rhoi ei Gynllun Gweithredu ar waith. Roedd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Moderneiddio Addysg, a oedd yn cyfarfod bob wythnos / pythefnos. Roedd cofnodion y Bwrdd Moderneiddio Addysg yn nodi bod camau pendant yn cael eu cymryd gydag unrhyw elfennau 'risg' yn y Cynllun a therfynau amser heb eu cwrdd.
10. Roedd tystiolaeth yn fuan o gynnydd gyda pherthynas yr Awdurdod ag ysgolion: datblygwyd Cytundeb Partneriaeth Ysgolion, sefydlwyd Ffederasiwn Penaethiaid, a oedd wedi'i gynrychioli ar banel penodiadau allweddol yr AALI, sefydlwyd Fforwm Cadeiryddion Llywodraethwyr a gwnaed trefniadau clwstwr (cyd-gymorth) ar gyfer ysgolion.
11. Fodd bynnag, oherwydd yr anghytgord hanesyddol rhwng yr ysgolion a'r Awdurdod, roedd y Bwrdd yn credu bod angen gwneud tipyn mwy o waith i weld cytgor llwyr. Roedd rhai penaethiaid yn credu nad oedd ganddynt ymddiriedaeth na pharch yr Awdurdod ac yn gweld ymyrraeth yr AALI fel bygythiad i'w hunanreolaeth. Roeddent hefyd yn feirniadol o'r pwyslais yn y Cynllun Gweithredu ar wella cyrhaeddiad disgyblion mewn profion ac arholiadau, yn lle chwilio am feini prawf cyrhaeddiad mwy 'crwn'.
12. Wrth grynhoi'r cynnydd at y pwynt hwnnw, dywedodd y Bwrdd fod cychwyn addawol wedi'i wneud i geisio newid y diwylliant yn yr Awdurdod ac i wella capasiti a gallu'r Awdurdod i wneud gwelliannau. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, mai megis cychwyn oedd y siwrne tuag at wella a'i bod yn rhy fuan i asesu pa mor effeithiol fyddai'r systemau a'r prosesau a roddwyd yn eu lle o ran sicrhau gwelliant parhaus a chynaliadwy.
13. Erbyn **Ebrill 2008** (a thrydydd cyfarfod y Bwrdd), roedd Adroddiad Chwarterol ar Ymweliadau Monitro Estyn wedi'i dderbyn a'i graffu gan y Bwrdd.
14. Roedd y Bwrdd wedi nodi pedair her allweddol gysylltiedig ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych ac wedi eu trafod gyda chynrychiolwyr y Cyngor yn y cyfarfod.
15. Y gyntaf oedd *cynaliadwyedd a chynnal momentwm*. Roedd yn cael ei gydnabod bod y Cyngor, ers Hydref 2007, wedi bod wrthi'n cyflawni gwaith dwys i sefydlu'r cynlluniau, systemau a'r gweithdrefnau angenrheidiol i wella'r ddarpariaeth addysg a chanlyniadau addysgol. Roedd y Bwrdd yn cydnabod y byddai cynnal y momentwm a grëwyd dros y cyfnod hwn ar draws ystod eang o weithgareddau am gyfnod pellach yn her sylweddol. Byddai cefnogaeth y Cyngor a'r Cabinet newydd drwy barhau i roi blaenoriaeth i addysg ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2008 yn hanfodol bwysig.
16. Yr ail oedd *symud ymlaen o sefydlu prosesau a chynyddu capasiti ar lefel yr AALI i wella canlyniadau ar lefel ysgolion*. Yn ôl yr Asesiad Cychwynnol o Gynnydd gan y Bwrdd (Mawrth 2008) a'r Adroddiad Chwarterol ar Ymweliadau Monitro gan Estyn, roedd y Cyngor wedi gwneud cychwyn addawol drwy ddarparu cyfeiriad cliriach ar gyfer ei wasanaethau addysg ac wedi cynyddu ei gapasiti i gyflwyno newid a gwelliannau. Yr her bellach oedd gwneud defnydd effeithiol o'r systemau a ddatblygwyd a'r capasiti a grëwyd er mwyn sianelu egni at weithgareddau wedi eu hanelu'n uniongyrchol at wella cyrhaeddiad disgyblion.
17. Y drydedd her oedd *ennill ymddiriedaeth a chydweithrediad llawn yr ysgolion*. Roedd y Bwrdd wedi adrodd yn ei Asesiad Cychwynnol o Gynnydd bod yr Awdurdod wedi gwneud peth cynnydd ar wella ei brosesau ymgynghori a chyfathrebu ag ysgolion, ond bod tipyn mwy o waith i'w wneud i sefydlu ymddiriedolaeth lwyr a chydweithrediad llawn. Roedd adroddiad chwarterol ar Ymweliadau Monitro Estyn yn cadarnhau'r dyfarniad hwn.



18. Roedd y Bwrdd yn bryderus ar y pwynt hwn bod rhai ysgolion yn gweld yr adroddiadau gan Estyn a Cambridge Education fel problemau gan yr AALI yn unig yn hytrach na her i bawb a oedd yn darparu addysg yn y Sir. Roedd taer angen symud tuag at sefyllfa lle oedd gan y rhanddeiliaid i gyd – aelodau etholedig, swyddogion yr AALI, cyrff llywodraethu, penaethiaid ac athrawon – ddealltwriaeth glir o'u gwahanol rolau yn y broses gwella ysgolion.
19. Yn olaf, credai'r Bwrdd fod angen *sicrhau cydweithrediad effeithiol rhwng addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol*. Nododd y Bwrdd fod yr Adroddiad Chwarterol ar Ymweliadau Monitro Estyn yn nodi bod y berthynas rhwng gwahanol rannau o'r gwasanaethau addysg a chymdeithasol yn aneffeithiol. Roedd y Bwrdd wedi codi'r mater gyda swyddogion yr Awdurdod, ond methodd â gweld beth yn union oedd y broblem, tra'n penderfynu ymchwilio i'r mater ymhellach.
20. Ar y pwynt hwn, bu'r Bwrdd yn ystyried ei ddulliau o weithio yn y dyfodol. Y gred oedd y byddai newid pwyslais yn briodol. Byddai'r Bwrdd yn gwahodd cynrychiolwyr o blith y rhanddeiliaid allweddol (er enghraifft, Cadeirydd y Fforwm Llywodraethwyr, y Gymdeithas Rhieni a Darparwyr Gwasanaethau Ieuencid) i roi eu barn yng nghyfarfodydd y Bwrdd a byddai adroddiadau diweddar ar gynnydd gan Gyngor Sir Ddinbych yn aros fel eitem sefydlog ar yr agenda.
21. Fodd bynnag, er mwyn cael darlun cywir o'r hyn oedd yn digwydd, credai'r Bwrdd fod angen i aelodau fynd allan i'r maes i arsylwi a thrafod datblygiadau gydag amrywiol sefydliadau a grwpiau.
22. Yn rhannol, roedd hyn eisoes wedi cychwyn. Roedd cynrychiolydd o'r Bwrdd wedi mynychu un o gyfarfodydd y Bwrdd Moderneiddio Addysg. Byddai aelod o'r Bwrdd yn mynychu'r Pwyllgor Craffu ym Mehefin 2008 ac yn gofyn am wahoddiad i fynychu'r Fforwm Penaethiaid a chyfarfodydd y Grwpiau Clwstwr. Roedd y Bwrdd hefyd yn ystyried sut orau i gael barn pobl ifanc.
23. Erbyn **canol 2008**, credai'r Bwrdd fod cynnydd sylweddol o ran adferiad addysg yn Sir Ddinbych yn gliriach fyth i'w weld. Ar ôl ei gyfarfod ar 19 Mehefin, crynhodd y Bwrdd ei farn fel a ganlyn:
- Roedd arweinyddiaeth well a chyfeiriad cliriach ar gyfer y gwasanaeth addysg o fewn yr Awdurdod.
  - Roedd gwelliant wedi bod o ran capasiti swyddogion a chyfathrebu gyda'r ysgolion, a ffocws mwy siarp ar wella ysgolion.
  - Roedd cryn ymdrech wedi'i buddsoddi mewn cynhyrchu Cynllun Plant a Phobl Ifanc. Fodd bynnag, byddai angen ymgynghori pellach i sicrhau bod blaenoriaethau'n derbyn cyllid, ffocws a sylw digonol a phriodol.
  - Roedd ailsefydlu'r Fforwm Llywodraethwyr yn gam cadarnhaol. Roedd ganddo'r potensial i feithrin dealltwriaeth well rhwng yr Awdurdod a'r ysgolion ac i helpu i symud yr agenda gwella ysgolion yn ei blaen.
  - Roedd parodwydd Pwyllgor Craffu'r Awdurdod, a oedd â Chadeirydd newydd ac aelodaeth newydd i raddau helaeth, i ddarparu her gadarn, yn argoeli'n dda ar gyfer ei rôl i'r dyfodol.
24. Er hynny roedd rhai amheuan o hyd:
- Y teimlad oedd ei bod yn rhy fuan i asesu effaith y newidiadau hyn ar berfformiad ysgolion a'r gwasanaethau ieuencid.
  - Roedd cyflwyno a gwneud defnydd effeithiol o ddata i fonitro perfformiad yn parhau i fod yn her.

- Roedd rhaglen hyfforddi llywodraethwyr ar y gweill, ond i bob golwg nid oedd eto wedi cael fawr o effaith. Ym marn y Bwrdd, roedd angen i'r Awdurdod roi sylw i faterion yn ymwneud â recriwtio, cynefino a hyfforddiant parhaus i lywodraethwyr. Roedd angen rhoi mwy o bwyslais, wrth hyfforddi llywodraethwyr, ar fonitro perfformiad ysgolion a dehongli data.
25. Erbyn **Medi 2008**, roedd y Bwrdd wedi derbyn rhai canlyniadau arholiad (2008 i'w cymharu â 2007) ac asesiad o gynnydd gan CLILC.
26. Yn ôl dadansoddiad yr Awdurdod o'r canlyniadau, roedd rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn CA4 a gyda Lefel A. Fodd bynnag, roedd y canlyniadau yn CA1 yn siomedig. Barn y Bwrdd oedd ei bod yn rhy fuan i asesu effaith rhaglenni gwella ysgolion yr Awdurdod ar berfformiad yr ysgolion, ond ei bod yn galonogol bod dadansoddiadau manwl o berfformiad pob ysgol bellach ar gael ac, felly, y gellid adnabod yr ysgolion lle nad oedd cynnydd yn cael ei wneud er mwyn cyflwyno ymyriadau a rhoi cymorth.
27. Roedd asesiad CLILC o'r cynnydd yn cadarnhau:
- Bod Cyngor Sir Ddinbych wedi rhoi blaenoriaeth i addysg.
  - Bod strwythurau rheoli, cynlluniau a pholisïau bellach yn eu lle.
  - Bod problemau capasiti staff wedi cael eu datrys.
  - Bod strategaethau gwella ysgolion, gyda data o ansawdd da i'w cefnogi, wedi cael eu datblygu.
  - Bod hyfforddiant a chymorth i lywodraethwyr yn symud yn y cyfeiriad iawn.
28. Yn ei werthusiad ei hun erbyn y pwynt hwnnw, roedd y Bwrdd yn cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud gan gasglu mai'r prif sialensau yn wynebu'r Awdurdod yn awr oedd:
- Gwthio ei Raglen Gwella Ysgolion yn ei blaen. Fel rhan o hyn byddai angen cynnwys ysgolion fel eu bod yn cymryd meddiant o'r Rhaglen a newid diwylliant yr ysgolion i fod yn un o hunan-werthuso parhaus.
  - Cynnal momentwm ei raglen uchelgeisiol, yn enwedig yng nghyd-destun setliad ariannol heriol gan Lywodraeth y Cynulliad.
  - Datblygu strategaeth yn seiliedig ar egwyddorion addysgol cadarn i ysgolion cynradd bach.
  - Ad-drefnu addysg ôl 16 oed yn ardal y Rhyl.
  - Datblygu strategaeth hirdymor ar gyfer Dysgu Gydol Oes a oedd yn mynd y tu hwnt i'r Cynlluniau Gweithredu a gynhyrchwyd mewn ymateb i adroddiadau arolygu Estyn.
29. Ym **mis Hydref 2008**, ystyriodd y Bwrdd ganlyniadau arholiad ysgolion uwchradd y Sir yn fwy manwl. Roedd amrywiadau eang rhwng ysgolion a rhai amrywiadau sylweddol o fewn yr ysgolion hefyd. Cafodd gwestiynau pwysig ynghylch perfformiad pob ysgol eu nodi a'u cyfathrebu wedyn i'r Pennaeth Gwella Ysgolion.
30. Nododd y Bwrdd yr agweddau cadarnhaol a negyddol yn Adroddiad Monitro Chwarterol diweddaraf Estyn a phenderfynodd ymchwilio ymhellach i rai o'r materion a oedd yn codi, fel anghysondebau yn yr arferion gweithio rhwng swyddogion gwella ysgolion a diffyg cefnogaeth i ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn ei gyfarfod nesaf.
31. Ar y cyfan, roedd y Bwrdd yn cydnabod y camau breision a wnaed ar faterion arweinyddiaeth, rheoli, capasiti a chraffu ond roedd dal yn bryderus ynghylch

perfformiad ysgolion, ariannu'r rhaglen Moderneiddio Addysg, a chynaliadwyedd rhai o'r rhaglenni cyfredol ar ôl ail-arolygiad Estyn ym mis Mawrth 2009.

32. Erbyn **Rhagfyr 2008**, roedd y Bwrdd yn cydnabod ei fod yn nesau at ddiwedd ei oes, a dechreuodd adolygu a dadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd, er mwyn paratoi ei asesiad terfynol o'r cynnydd a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych. Credai'r Bwrdd, er y byddai'n bosibl iddo roi ei sylwadau ar y prosesau, gweithdrefnau a'r strwythurau a roddwyd yn eu lle, y byddai'n anoddach gwerthuso'r canlyniadau bwriedig. Gellid ond asesu llawer o'r canlyniadau – er enghraifft, gwelliannau ym mherfformiad ysgolion ac agweddau ar y rhaglen Moderneiddio Addysg - yn y tymor hirach.
33. O gofio ei bod yn ddyddiau cynnar ar y broses adfer, barn y Bwrdd oedd, er y cynnydd a wnaed gan y Cyngor Sir ac er y canlyniadau yn ail-arolygiad Estyn, y byddai angen i ryw fath o drefniadau cymorth, monitro a phwysau fod yn eu lle ar ôl mis Mawrth 2009 (dyddiad yr ail-arolygiad) i atgyfnerthu a sicrhau cynaliadwyedd y rhaglenni cyfredol er mwyn arwain at welliannau parhaol yn y ddarpariaeth addysg.
34. Yn ei gyfarfod yn **Chwefror 2009**, roedd agwedd 'cymryd stoc' ar drafodaethau'r Bwrdd, sef parhau i gydnabod y pethau cadarnhaol a negyddol yn sefyllfa Cyngor Sir Ddinbych, ystyried hunan-werthuso, a chydabod bod Adroddiad Ail-arolygu Estyn ym mis Mawrth 2009 yn brawf sylweddol o gynnydd.
35. Fodd bynnag, ym mis **Mawrth 2009**, barn y Gweinidog oedd bod angen gwneud mwy o waith yn Sir Ddinbych i sicrhau bod y strategaethau a'r cynllunio wedi eu cysylltu'n glir i weithredu a fyddai'n arwain at wasanaethau a oedd o ansawdd da cyson. Roedd yn glir ei bod yn ddyddiau cynnar o hyd ar y cynnydd ac roedd y Gweinidog am fod yn ffyddiog bod y gwelliannau'n cael eu gwreiddio ac yn gynaliadwy cyn gwneud i ffwrdd â'r ymyriad mewn addysg yn yr Awdurdod.
36. **O gofio hyn, gwahoddodd y Gweinidog y Bwrdd i barhau am gyfnod pellach o 12 mis.**
37. Nododd y Gweinidog hefyd fod Estyn yn ddiweddar wedi cwblhau ail-arolygiad llawn o Awdurdod Sir Ddinbych gan gynnwys y Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid gan ddisgwyl derbyn eu cyngor ar ganlyniad hwn yng Ngorffennaf 2009.
38. Felly, erbyn **Gorffennaf 2009**, roedd Adroddiad llawn Estyn ar yr Ail-arolygiad wedi'i dderbyn gan y Bwrdd, a oedd gyda chylch gwaith yn awr i weithio am flwyddyn arall. Ar y cyfan, roedd yr adroddiad yn gadarnhaol:
  - Roedd y cynnydd cyffredinol gan yr Awdurdod yn dda. Roedd atebolrwydd wedi bod yn wendid mawr yn yr arolygiad blaenorol ond roedd bellach yn gryfder.
  - Roedd yr AALI wedi sefydlu Grŵp Monitro Safonau Ysgolion.
  - Roedd yr AALI wedi 'dod o le pell mewn cyfnod byr ac yn awr roedd ganddo bobl dda mewn swyddi uwch i barhau gyda'r gwaith da.'
39. Roedd rhai pryderon – ynghylch y Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid, y Gwasanaethau Cymorth a Gwella Ysgolion, a'r ffocws cymunedol – ond roedd y rhain yng nghyd-destun darlun cyffredinol a oedd yn dra gwahanol i'r un a adroddwyd arno yn Arolygiad 2007 (a arweiniodd yn bennaf at ymyrraeth Llywodraeth y Cynulliad). Erbyn hyn, nododd y Bwrdd fod y Cyngor Sir yn wir yn datgan siom gyda'r ffaith bod yr ymyriad (gan y Bwrdd ac Estyn) yn parhau. Ym marn y Cyngor Sir, nid oedd perfformiad Sir Ddinbych mwyach yn wahanol o ran ansawdd i berfformiad Awdurdodau Addysg Lleol eraill yng Nghymru gyda'r dangosyddion ansoddol yn dangos gwelliant sylweddol.

40. Erbyn **Medi 2009**, cyflwynwyd tystiolaeth i'r perwyl hwn i'r Bwrdd. Roedd canlyniadau arholiad ar gyfer 2009 wedi gwella fel eu bod bellach yn debyg i'r rhai ar draws Cymru (er nad oedd y gwelliant yn gyson ar draws yr holl ysgolion uwchradd), roedd amrywiaeth o wasanaethau a threfniadau gweinyddol yn gweithio'n effeithiol, a barn penaethiaid oedd bod cynnydd helaeth wedi'i wneud. Roedd archwiliad pellach o ganlyniadau arholiad 2009 ym mis **Tachwedd 2009** yn darlunio Cyngor Sir Ddinbych mewn golau cadarnhaol tra'n nodi'r gwendid penodol a pharhaus mewn rhai ysgolion.
41. Ym mis Ionawr 2010, cynhyrchodd Estyn Adroddiad Monitro Chwarterol pellach a oedd (ar y cyfan) yn gadarnhaol:
- *Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion yn Adroddiad Ail-arolygiad Estyn ym Mawrth 2009.*
  - *Mae'r Awdurdod wedi gosod targedau uchelgeisiol iddo'i hun i fod yn y 10 Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru erbyn 2010 gyda phob un o'i ddangosyddion perfformiad. Fodd bynnag, ar adeg yr ymweliad monitro, ni allai'r Awdurdod ddangos sut fyddai'r targedau hyn yn cael eu cyrraedd o fewn yr amser.*
  - *Mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro ei uwch dîm rheoli yn effeithiol. O'r herwydd mae'r Prif Swyddog Gweithredol wedi gallu cyflwyno diwylliant o uchelgais a dyheadau. Mae'r Cyngor wedi gosod targedau uchelgeisiol ond realistig ac yn gweithio'n dda tuag at eu cyflawni. Mae'r Prif Weithredwr newydd ac Arweinydd newydd y Cyngor yn gweithio rhyngddynt i sicrhau bod staff yn gallu cyrraedd targedau'r Cyngor ac yn helpu staff i ganolbwyntio mwy ar berfformiad.*
  - *Mae'r arweinydd yn gweithio'n dda ar draws yr holl bleidiau gwleidyddol i greu ymrwymiad trawsbleidiol i wneud addysg yn flaenoriaeth ac i ddyrannu adnoddau ychwanegol i'w wella.*
  - *Mae uwch reolwyr yn gwneud defnydd da o'r rhaglen newid i wthio ymrwymiad y Cyngor i wella addysg yn ei flaen ac i wneud yn siŵr bod staff yn deall eu cyfrifoldebau.*
  - *Mae gan y Cyngor brosesau da yn eu lle i fonitro cynnydd ac i nodi meysydd sydd angen eu datblygu. Mae'r rhain wedi ei helpu i gydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud a beth sydd angen rhoi sylw iddo, ac*
  - *Mae gan aelodau etholedig yn awr wybodaeth a dealltwriaeth dda o wasanaethau addysg a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd eithriadol dda mewn gwella ansawdd y craffu ar ddysgu gydol oes. Mae swyddogion yn darparu gwybodaeth dda i aelodau sy'n adolygu'n feirniadol a chraffu'n effeithiol ar wasanaethau.*
42. Wrth nesau at ddiwedd ail gyfnod (pellach) ei oes weithredol, cynhyrchodd y Bwrdd asesiad cyffredinol yr un mor gadarnhaol o'r AALI yn **Chwefror 2010** gydag adroddiad terfynol ym mis **Mai 2010** yn tynnu sylw at y canlynol:
- *Arweinyddiaeth a rheolaeth:* Arweinyddiaeth gref ac effeithiol ar lefel wleidyddol a swyddogion gyda chynllunio ar lefel strategol a gweithredol wedi gwella'n arw.
  - *Cyfathrebu ac ymgynghori:* Roedd cyfathrebu ac ymgynghori gydag ysgolion, rhieni a'r gymuned ehangach wedi gwella llawer iawn. Roedd ysgolion a'r Awdurdod yn awr yn cydweithredu mewn hinsawdd o gyd-barch a chyd-ymddiriedaeth, ac roedd angen meithrin a datblygu hyn yn ofalus i gwrdd â'r sialensau i ddod.

- *Perfformiad ysgolion:* Roedd nifer o raglenni wedi eu dyfeisio i wella perfformiad ysgolion. Roedd y rhain yn dechrau cael effaith, gyda gwelliannau'n parhau, yn enwedig yn CA4. Roedd anghysondebau o hyd ar draws pynciau, ysgolion a chyfnodau allweddol.
- *Cyllid ac adnoddau:* Roedd addysg yn derbyn blaenoriaeth o ran dyrannu adnoddau o fewn yr Awdurdod. Erbyn hyn roedd prosesau a phenderfyniadau cyllid yn fwy tryloyw. Byddai blaenoriaethu'r defnydd o adnoddau i hwyluso gwelliannau hirdymor cynaliadwy yn parhau i fod yn her fawr i'r Awdurdod.
- *Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid:* Er bod nifer o raglenni wedi eu cyflwyno mewn ymateb i adroddiadau Estyn, ar y cyfan roedd cynnydd wedi bod yn araf o ran gwella ystod ac ansawdd y gwasanaethau cymorth ieuenctid yn y sir. Fodd bynnag, roedd arwyddion y byddai pethau'n dechrau prysuro ar ôl penodi pennaeth newydd ar gyfer Gwasanaethau Ieuenctid, paratoi Cynllun Gweithredu mewn ymateb i ail-arolygiad Estyn a gweithredu, fel a gynlluniwyd, argymhellion adolygiad annibynnol o wasanaethau ieuenctid yr Awdurdod.
- *Y rhaglen Moderneiddio Addysg:* Roedd camau cynnar y rhaglen moderneiddio addysg wedi cael eu rheoli'n effeithiol. Dylai'r fframwaith polisi a gytunwyd arno roi sylfaen gadarn ar gyfer diwygio'r ddarpariaeth addysg yn y Sir dros y tymor hir. Fodd bynnag, byddai trosi'r polisiâu hyn yn gynigion pendant yn gryn her ac yn dibynnu ar argaeledd cyllid yn ogystal ag ar sgiliau arwain a rheoli cryf.
- *Gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol:* Roedd ymwybyddiaeth ar lefel Cyfarwyddwyr o ba mor bwysig oedd cydweithrediad agos rhwng y Gwasanaethau Dysgu Gydol Oes a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd y camau a gymerwyd i hwyluso hyn wedi sicrhau cydweithrediad gwell rhwng y gwasanaethau a newid diwylliant o fewn y Cyfarwyddiaethau.
- *Y Dyfodol:* Roedd y Bwrdd yn cydnabod y bydd yr Awdurdod yn wynebu sialensau parhaus a newydd dros y blynyddoedd nesaf, yn enwedig o ran ad-drefnu ysgolion a lefelau cyllido, ac y bydd angen iddo barhau i flaenoriaethu addysg a bod yn ddiwyro yn ei benderfyniad i adeiladu ar y cynnydd a wnaed er mwyn gweld canlyniadau llwyddiannus yn deillio o'i Gynlluniau Gwaith a Gweithredu. Yn ei adroddiad terfynol, dywedodd y Bwrdd ei fod yn credu bod gan Gyngor Sir Ddinbych bellach yr arweinyddiaeth, strwythurau, penderfyniad a'r capasiti i gynnal ei rhaglen wella a chwrdd â'r sialensau hyn. Gan hynny, teimlai'r Bwrdd o dan y gyfundrefn bresennol nad oes fawr o berygl y bydd yr AALI yn llithro'n ôl i'r categori 'methu'.

## Atodiad B Cylch Gorchwyl y Bwrdd

### Y Bwrdd

1. Bydd Bwrdd Adfer Addysg Annibynnol Sir Ddinbych ('y Bwrdd') yn cynnwys rhwng pedwar ac wyth aelod gan gynnwys Cadeirydd wedi'i benodi gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ('y Gweinidog').
2. Bydd y Bwrdd yn cynghori ac yn adrodd i'r Gweinidog ar berfformiad gwasanaeth addysg Cyngor Sir Ddinbych ('Sir Ddinbych').
3. Bydd y Bwrdd yn adrodd i ac yn cynghori'r Gweinidog ar berfformiad gwasanaeth addysg y Cyngor Sir yn ei gyfanrwydd ond i ganolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd a roddwyd gan y Gweinidog dyddiedig 20 Tachwedd 2007 yn gofyn bod y Cyngor Sir yn gwneud gwelliannau i ddarpariaeth ei wasanaeth addysg. Bydd y Bwrdd hefyd yn cynghori'r Gweinidog ar unrhyw Gyfarwyddyd pellach neu gamau pellach y gallai efallai eu cymryd os na fydd y Bwrdd yn fodlon gyda pherfformiad gwasanaeth addysg Cyngor Sir Ddinbych. Dylai'r Bwrdd dalu sylw arbennig i:
  - i) cynnydd gyda'r cynllun gweithredu a baratowyd gan y Cyngor Sir mewn ymateb i arolygiad Estyn o'r gwasanaeth addysg yng Ngorffennaf 2007 a chyda'r cynllun gweithredu ar gyfer arolygiad Estyn yn 2006 o'r Gwasanaethau Cymorth Ieuencid (ac unrhyw newidiadau i'r cynlluniau hynny y byddai Estyn yn eu cymeradwyo);
  - ii) cynnydd gyda'r gwendidau a'r cyfleoedd a nodwyd yn adroddiad cwmni Cambridge Education Ltd a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych; a
  - iii) cynnydd ar adolygu'r ddarpariaeth lleoedd ysgolion, gan gynnwys y ddarpariaeth 16-19 oed.
4. Bydd y Bwrdd yn ystyried adroddiadau monitro ac adolygu gan Estyn ac unrhyw gyngor neu wybodaeth a ddarperir gan y Prif Arolygydd neu ei harolygwyr i'r Bwrdd neu'n fwy cyffredinol.
5. Gall y Bwrdd ofyn i aelodau etholedig, swyddogion, staff neu unrhyw un sy'n darparu gwasanaethau i Sir Ddinbych ddarparu dogfennau iddo neu fynychu cyfarfodydd y Bwrdd i ddarparu gwybodaeth neu ateb unrhyw gwestiynau y gallai fod gan y Bwrdd. Os gwrthodir y ceisiadau hyn, rhaid i'r Bwrdd roi gwybod yn ysgrifenedig ar unwaith i swyddog penodedig yn Llywodraeth y Cynulliad.
6. Gall y Bwrdd ofyn am wybodaeth gan unrhyw berson neu ffynhonnell o'i ddewis ynghylch gwasanaeth addysg Sir Ddinbych a gofyn i'r person hwnnw fynychu cyfarfodydd y Bwrdd. Ni all y Bwrdd orfodi unrhyw un i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd.
7. Drwy weithredu ar y cyd neu fel aelodau unigol, ni all y Bwrdd:
  - a) achosi gwariant;
  - b) llunio cytundeb neu gontract;
  - c) gwneud penderfyniadau neu feddwl cymryd unrhyw gamau ar ran y Gweinidog neu Lywodraeth y Cynulliad; na
  - ch) Gwneud unrhyw ddatganiad na chymryd rhan mewn unrhyw sylw yn y wasg neu'r cyfryngau yng nghyswllt y Bwrdd neu wasanaeth addysg Sir Ddinbych heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig swyddog penodedig o Lywodraeth y Cynulliad.

### *Parhad y Bwrdd*

8. Bydd y Bwrdd yn bodoli hyd nes y bydd Estyn yn hysbysu'r Gweinidog ynghylch canlyniad ei ail-arolygiad o wasanaeth addysg Cyngor Sir Ddinbych. Bryd hynny, bydd y Gweinidog yn penderfynu a fydd yn cadw'r Bwrdd am gyfnod pellach ac yn hysbysu'r Bwrdd o'i phenderfyniad yn ysgrifenedig.

### *Trefniadau adrodd*

9. Ar ôl pob cyfarfod, bydd y Bwrdd yn adrodd i'r Gweinidog yn ysgrifenedig o fewn deg diwrnod gwaith. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Gweinidog drwy ei anfon at swyddog penodedig o Lywodraeth y Cynulliad. Bydd yr adroddiad mewn fformat a gytunwyd arno gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.
10. Os gofynnir iddo wneud hynny, bydd y Bwrdd yn darparu adroddiadau neu wybodaeth i'r Gweinidog neu ei swyddogion yn ychwanegol at yr adroddiadau a gynhyrchir gan gyfarfodydd y Bwrdd fel sy'n ofynnol o dan baragraff 9.
11. At ddibenion gweinyddu beunyddiol, bydd y Bwrdd yn adrodd i'r Ysgrifenyddiaeth. I bob pwrpas arall, gall y Bwrdd ddwyn unrhyw fater at sylw swyddog penodedig o Lywodraeth Cynulliad Cymru.
12. Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru drefnu neu gyfarwyddo'r Bwrdd i drefnu bod adroddiadau'r Bwrdd, ac unrhyw wybodaeth arall y mae'n ei darparu, ar gael i'r cyhoedd.

### *Amledd a lleoliad y cyfarfodydd*

13. Bydd y Bwrdd yn cyfarfod o leiaf unwaith ym mis Ionawr, Chwefror a Mawrth 2008. Ar ôl hynny, bydd y Bwrdd yn cyfarfod o leiaf unwaith bob deufis ar ddyddiadau i'w cytuno arnynt gyda swyddog penodedig o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gall y Bwrdd gyfarfod yn amlach os yw'r Cadeirydd yn argymhell hynny i swyddog penodedig o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'r swyddog hwnnw'n cytuno neu os yw'r Gweinidog neu ei swyddogion yn gofyn i'r Bwrdd gyfarfod yn amlach. Dylai ceisiadau ychwanegol o'r fath fod yn ysgrifenedig.
14. Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn Swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Llanelwy, neu yn Swyddfa Cyngor Sir Ddinbych yn Rhuthun, oni bai fod yr Ysgrifenyddiaeth yn gwneud trefniadau eraill.
15. Rhaid cynnal cyfarfodydd y Bwrdd yn breifat ond gall y bobl hynny sy'n cael eu gwahodd o dan baragraffau 4, 5 neu 6 hefyd fynychu cyfarfodydd y Bwrdd. Os yw'r Bwrdd yn dymuno gwahodd unrhyw berson y tu allan i sgôp paragraffau 4, 5 neu 6, rhaid i'r Cadeirydd ofyn am a derbyn caniatâd ysgrifenedig gan swyddog penodedig o Lywodraeth Cynulliad Cymru ymlaen llaw. Gall Llywodraeth Cynulliad Cymru anfon unrhyw swyddogion o'i dewis i arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd.

### *Yr Ysgrifenyddiaeth*

16. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu'r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd. Bydd y cymorth hwn yn cynnwys trefnu cyfarfodydd, clericio mewn cyfarfodydd, casglu a dosbarthu papurau ar gyfer cyfarfodydd gan gynnwys dogfennau a ddarperir gan y Cyngor Sir ac Estyn, helpu i baratoi adroddiadau i'r Gweinidog, a gweinyddu ffioedd a chostau ar gyfer aelodau'r Bwrdd.

### *Aelodaeth*

17. Y Gweinidog fydd yn penodi holl aelodau'r Bwrdd gan gynnwys unrhyw aelodau a fydd efallai'n cael eu penodi nes ymlaen fel aelodau ychwanegol neu yn lle aelodau gwreiddiol o'r Bwrdd.

18. Y Gweinidog fydd yn penodi Cadeirydd y Bwrdd.
19. Penodir yr aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd, dros oes gyfan y Bwrdd oni nodir fel arall gan y Gweinidog neu oni bai fod Aelod neu Gadeirydd yn ymddiswyddo o'r swydd neu'n methu â chyflawni gofynion y swydd.
20. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu ffioedd a chostau teithio a chynhaliadau aelodau'r Bwrdd yn unol â lefel y taliadau hyn a delir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i rai sy'n dal penodiadau cyhoeddus (fel a gytunir arnynt o bryd i'w gilydd) oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig ac ymlaen llaw gan y swyddog penodedig.

## Atodiad C Aelodau'r Bwrdd

### Mr Roy Lewis James CBE – Cadeirydd y Bwrdd

Ar ôl 12 mlynedd o brofiad dysgu mewn ysgolion uwchradd yn Surrey, Ceredigion a Merthyr Tudful, penodwyd Roy James yn Arolygydd Ysgolion EM ym 1970. Ar ôl cyflawni rolau rheoli yn yr Arolygiaeth, gan gynnwys cyfrifoldeb am addysg cyn-olweddigaethol ac addysg ôl 16 mewn ysgolion ac addysg bellach, cafodd ei benodi yn Brif Arolygydd EM ar Ysgolion Cymru ym 1990. Ers ymddeol o'r Arolygiaeth, mae wedi cyflawni gwaith ymchwil ac ymgynghori ar gyfer llywodraeth ganolog a'i hasiantaethau, Awdurdodau Addysg Lleol, 'melinau trafod' a phrifysgolion, gan gynnwys cyfnodau fel Athro Allanol ym Mhrifysgol Morgannwg a Chymrawd Ymchwil Gwadd yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd. Mae'r gwaith ymchwil ac ymgynghori wedi bod yn eang ac yn cynnwys: polisi addysg yng Nghymru; gwella ysgolion; hyfforddiant cychwynol athrawon; datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon a phenaethiaid; cwricwlwm ac asesu mewn ysgolion; addysg cyn-ysgol; ac adolygu patrwm y ddarpariaeth gynradd ac uwchradd mewn Awdurdodau Addysg Lleol unigol.

### Mr Rod Alcott

Mae Rod Alcott wedi gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru am dros 30 o flynyddoedd. Ef oedd y Rheolwr Perthynas ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych yn Swyddfa Archwilio Cymru. Prif bwrpas y rôl yw cyd-gysylltu'r gwaith rheoleiddio ar gyfer y Cyngor gyda'r arolygiaeth addysg (Estyn) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac adrodd ar ganlyniadau'r gwaith hwn yn Llythyr Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru at y Cyngor.

### Mr John Clutton

Mae John Clutton wedi ymddeol o'i swydd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant ac Adloniant gyda Chyngor Sir y Fflint, lle oedd yn Gyfarwyddwr arweiniol dros Blant a Phobl Ifanc. Arferai â bod yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol gyda Sir y Fflint ac roedd ei gyfrifoldebau bryd hynny'n cynnwys gwella ysgolion, cymorth a chynghori ar y cwricwlwm a phob agwedd ar ddirprwyo cyllid i ysgolion. Cyn ymuno â Llywodraeth Leol, roedd gan Mr. Clutton yrfa lwyddiannus iawn fel uwch reolwr mewn tair ysgol uwchradd yn Sir Gaer a Gogledd Cymru.

### Ms Sandra Davies OBE

Mae Sandra Davies wedi gweithio fel athrawes, rheolwr canol, uwch reolwr a phennaeth yn y sector uwchradd ers 1972. Mae wedi cyfrannu at ddatblygiadau polisi a hyfforddiant addysgol allweddol yng Nghymru ar ôl cyfrannu at waith y Grŵp Gweithredu ar Addysg a Hyfforddiant, a gynhyrchodd ETAP, a'r adroddiad cyntaf ar Sgiliau Dyfodol Cymru. Mae wedi cael rhan ymarferol parhaus i'w chwarae mewn addysg a hyfforddiant ers ymddeol drwy fod yn aelod o ACCAC, cyfrannu at y Rhaglen Ymchwil Dysgu ac Addysgu ac arolygiadau ysgol, ac fel darparwr hyfforddiant ar gyfer Addysg Parhaus a CELT, a hefyd fel cynghorwr i gyrff llywodraethu ar reoli perfformiad penaethiaid, ac fel cyfarwyddwr anweithredol ar fwrdd Estyn.



### **Mr Dewi Lake**

Mae Mr Dewi Lake yn bennaeth profiadol yn ysgol uwchradd Ysgol y Moelwyn ym Mlaenau Ffestiniog, Gogledd Cymru. Mae'r ysgol yn adnabyddus fel ysgol gymunedol am ei rheolaeth gadarnhaol o ymddygiad a'i strategaethau codi safonau. Cafodd gynrychiolydd o'r ysgol ei gwahodd i fynychu derbyniad yn 10 Downing Street y llynedd i gydnabod llwyddiannau'r ysgol. Yn 2006 enwebwyd yr ysgol a chyrrhaeddodd y rhestr fer fel un o dair ysgol ar draws Prydain am ansawdd ac amrediad ei darpariaeth chwaraeon allgyrsiol. Cafodd hefyd ei henwebu yn ysgol benigamp gyffredinol Gogledd Cymru am nofio yn erbyn y don o ran cyrhaeddiad addysgol ac yn ddiweddar enillodd raddau rhagorol mewn arolygiad gan Estyn. Mae wedi cynnal safonau uchel y dyfarniadau Buddsoddwyr mewn Pobl a'r Dyfarniad Ansawdd Sgiliau Sylfaenol ac yn ddiweddar wedi ennill dau ddyfarniad cenedlaethol i gydnabod safonau ei haddysg yrfaoedd.

### **Yr Athro Michael Scott DL**

Yr Athro Scott oedd Prifathro a Phrif Weithredwr Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru hyd nes iddo ddod yn Brifysgol Glyndŵr ar 3 Gorffennaf 2008 pan ddaeth yn Is-Ganghellor ac yn Brif Weithredwr. Roedd yn Aelod o Gyngor y BBC yng Nghymru rhwng 2003 a 2007. Mae wedi bod yn Gadeirydd ar Gomisiwn Ffilm Gogledd Cymru, yn Gadeirydd ar Gomisiwn Digwyddiadau Gogledd Cymru, mae'n Aelod o Bwyllgor Llywio Fforwm Economaidd Gogledd Cymru ac yn Is-gadeirydd ar Theatr Clwyd. Mae hefyd yn Aelod o Gyngor y CBI ac o Gyngor Prifysgol Cymru. Drwy gytundeb gyda'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, daeth yn Gadeirydd cyntaf ar Bwyllgor Cymru Wales UNESCO yn 2005 tan 2009.

### **Mr Richard Owen Watkin OBE DL**

Owen Watkin oedd Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion ers 1996 hyd nes iddo ymddeol yn Ebrill 2007. Dros y cyfnod hwn, bu'n chwarae rhan agos ym mhrosesau corfforaethol a democrataidd yr awdurdod, ac yn y gwaith o reoli perfformiad gwasanaethau i gwrdd â disgwyliadau Aelodau etholedig, archwilwyr ac arolygiaethau. Yn ystod ei amser gyda'r awdurdod, bu'n arwain ar gyflwyno newidiadau mewn materion llywodraethu a phartneriaeth yn ogystal â mewn gwasanaethau'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys y diwygiadau yng nghyswllt partneriaethau yn y maes hwn a darpariaeth gydlynus gwasanaethau'r awdurdod lleol i'w blant i gyd o dan y Cyfarwyddwr arweiniol enwebedig. Yn ddiweddar mae wedi bod yn aelod o Gomisiwn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar lywodraeth leol, yn aelod o Ymddiriedolaeth Prawf ac ar hyn o bryd mae'n Asesydd ar gyfer prosiect 'Rhagoriaeth Cymru' gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### **Ms Shan Wilkinson OBE**

Roedd Shan Wilkinson yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam rhwng 2002 a 2004, ac yn Gyd-gadeirydd ar Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc Wrecsam rhwng 2004 a 2006, gan arwain ar graffu perfformiad ysgolion a rôl yr adran addysg. Hyd at fis Mai 2008 roedd yn aelod o Fwrdd Plant a Phobl Ifanc y Gymdeithas Llywodraeth Leol ac yn Adolygydd Cymheiriaid gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a CLILC. Mae'n llyfrgellydd sydd â blynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc, ac ar hyn o bryd yn Rheolwr ar Wasanaethau Llyfrgell ar gyfer Cyngor Gorllewin Sir Gaer a Chaer.

### **Ms Christine Walby OBE**

Ar hyn o bryd mae Christine Walby yn Ymgynghorydd ym maes gwasanaethau plant ac wedi gweithio ym meysydd gwasanaethau ieuencid a gwaith cymdeithasol; mae wedi bod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn dau awdurdod lleol ac yn llyfarydd cenedlaethol ar faterion plant a phobl ifanc ar gyfer Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae wedi rhoi cyngor a chymorth ar wasanaethau plant i nifer o awdurdodau lleol, awdurdodau'r heddlu ac awdurdodau iechyd ac wedi cynghori Cadeirydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer yr 'Adolygiad o Ddiogelu Plant Agored i Niwed'. Mae'n gyn Gadeirydd a chyn Ymddiriedolwr ar 'Plant yng Nghymru' ac yn Gadeirydd ac un o'r

aelodau a sefydlodd Tros Gynnal, y gwasanaeth eiriolaeth plant yng Nghymru; mae hefyd wedi gweithredu fel Cadeirydd annibynnol ar Fwrdd Lleol Diogelu Plant yn Ne Cymru.

**Ms Jane Lavelle**

Mae Jane Lavelle wedi gweithio fel athrawes, rheolwr canol ac uwch reolwr yn y sector Dysgu Gydol Oes – Addysg Gymunedol ers 1972. Mae wedi cyfrannu at ddatblygiadau polisi allweddol yng Nghymru ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae wedi bod yn asesydd cymheiriaid gydag Estyn ers 1998 ac, yn fwy diweddar, yn arolygydd ychwanegol.